ISSN: 1473-3692

# Blewyn o Obaith

Rhifyn 472 · Gorffennaf 2020

Rhifyn digidol arbennig o'r Blewyn Glas - daw eto haul ar fryn!




## Daw eto haul ar fryn!

Mae penwythnos olaf mis Gorffennaf yn un o'r prysuraf a mwyaf lliwgar tref Machynlleth, gyda Charnifal y dref yn cael ei gynnal yn flynyddol ers 1969. Yn anffodus eleni, ni fydd y digwyddiad yn gallu cymryd lle, ond rydym wedi casglu llu o luniau o garnifalau'r gorffennol, sydd i'w gweld ar dudalen 10, 11 a 12. Diolch yn fawr i drigolion Machynlleth am fod mor barod i anfon eu lluniau atom ni ac i'r ffotograffydd, Peter Dobson, sydd erbyn hyn yn byw yn America, am anfon rhai o'i luniau yntau hefyd. Ymlaen i Garnifal 2021...!






Does dim amheuaeth bod y cyfnod clo wedi bod yn gyfnod gwahanol iawn i bob un, gan gynnwys plant yr ardal sydd wedi bod i ffwrdd o'r ysgol am dri mis. Er bod cyswllt wedi bod trwy 'ddysgu o bell' a'r ysgol wedi bod ar agor fel 'Hwb' i blant gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnod, roedd llawer o blant yn falch o gael mynd nôl i'r ysgol am rai diwrnodau ddiwedd mis Mehefin a Gorffennaf, er mwyn gweld eu ffrindiau a'r staff. Diolch i ysgolion ardal y *Blewyn Glas* am rannu rhai o'u lluniau gyda ni ar gyfer y rhifyn yma o *Blewyn o Obaith*. Dyma lun o rai o blant Campws Cynradd Bro Hyddgen yn mwynhau coginio yn yr Hwb.

**papurblewynglas@gmail.com**

**Golygydd**: Manon Wyn, Glan Coegen, Cemaes, Machynlleth, Powys, SY20 9PR

**Panel Golygyddol**
Llifon Ellis, Eryl Evans, Gwenfair Glyn, Eirian Jones, Gill Jones, Iola Jones, Lydia Jones, Mari Lisa

**Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y papur o reidrwydd yn adlewyrchu barn y panel golygyddol**

**Swyddogion**
**Cadeirydd**: Gwilym Fychan, Felin Newydd, Abercegir (01650 511212)
**Ysgrifennydd**: Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458)
**Trysorydd**: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)
**Dylunydd**: Elgan Griffiths

**Y Blewyn drwy'r post**
Swyddog postio'r papur: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)
Pris y papur drwy'r post am flwyddyn - £25

**Newyddion/Llythyrau/Hysbysebion i'r Blewyn**
Dylid e-bostio unrhyw newyddion neu hysbysebion i:
papurblewynglas@gmail.com
neu bostio at Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458) maesterran@btopenworld.com
Noder: Gellir archebu cyfres o 6 hysbyseb am bris 5. Hyd at 1/8 tudalen: £10; Hyd at ¼ tudalen: £20; Hyd at ½ tudalen: £40
Tudalen gyfan: £80
Telerau cynnwys taflen
O natur ddiwylliannol: £20;
O natur fasnachol: £30
O natur fasnachol cenedlaethol: £60

**Diolchiadau**
**Swyddog Diolchiadau**: Siân Evans, Erw'r Llan, Penegoes, Machynlleth (01654 703603) sianmwyars@outlook.com
Cofiwch na ddylai Diolchiadau neu gyhoeddiadau fod dros 50 o eiriau. Amgaewch y tâl priodol sef £5 gyda'r cyhoeddiad mewn amlen gyda'i gilydd i Siân Evans os gwelwch yn dda – drwy'r post neu drwy law eich cysylltydd lleol. Byddwn yn cydnabod tâl o £10 neu fwy, neu unrhyw rodd nad yw'n ddiolchiadau, yn y rhestr Rhoddion.

Cyhoeddwyd gan bwyllgor y Blewyn Glas. Argraffwyd gan Wasg Y Lolfa, Talybont. Aelod o Gymdeithas Papurau Bro Cymraeg.

# Diolchiadau

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael i goffrau'r Blewyn Glas:**

Teulu'r diweddar Rhian Williams

Dymuna deulu'r diweddar Rhian Williams, gynt o'r Hendre, Llanbrynmair - ei meibion, Siôn, Llyr a Rhys, ei rhieni, Glynmor a Lynfa, ei chwaer, Glenwen, ei chymar, John a'i ferch, Elain, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth drist o'i cholli. Diolch am y rhoddion hael er cof am Rhian tuag at Hosbis Hafren, i'r Parch Edwin Hughes am ei eiriau pwrpasol ac i'r ymgymerwyr am eu trefniadau trylwyr. Diolch o galon.

Gair o ddiolch i Staff y Twymyn am y gofal arbennig mae Dad, Iori Plas, wedi'i dderbyn yn ystod y 3 mis diwetha'. Y mae wedi bod yn gyfnod heriol a thorcalonnus inni fel teulu ond mae gofal a charedigrwydd y staff wedi bod yn gwbl amhrisiadwy. Oherwydd gwaeledd mae dad rŵan yng Nghartref Dyfi. Diolch i bawb am yr holl gonsyrn, mae'n amser tu hwnt o anodd ond mae pob ymholiad yn gysur. Diolch, Mererid.

# Helpwyr Bach y Blewyn Glas



Megan Celyn, Gwernhefin yn cael hoi fach o'r cneifio!



Elain Rhys, Y Felin, Llanymawddwy, yn helpu Dad i hela'r gwair sych



Ela, Anni a Beca Siôn, Pennant, Llanymawddwy yn ymlacio ar ôl gweithio'n galed ar ddiwrnod cneifio



Marged Lois, Gwernhefin yn brysur yn helpu Dad i lapio'r gwlân





Cadi a Mari Llewelyn yn helpu Dad yn yr ardd yn Ninas Mawddwy

## Glantwymyn

Heledd Glyn Jones, Cynefin
heleddg@hotmail.com / 07837 781795


**Diolch o galon**
Rwy'n siŵr y buasai pob un aelod o'r gymuned yn hoffi diolch yn fawr iawn i Lil, Swyddfa'r Post am ei holl waith yn ystod y cyfnod caled yma. Dyma gerdd gan Sarah Williams ar ran pawb yn y fro.

**Lil**
Y glud sy'n dal y dyffryn gyda'i gilydd,
Ei phresenoldeb yn clymu cymunedau Bro Ddyfi.
Ynghlwm, nwyd naturiol, noddwr y cwm.
Dynes nerthol, benyw brwdfrydig,
Sylfaen sydd hyd hyn a'i lle yn llên gwerin y fro.
Osgeiddig, dyngarwr ostynedig,
Ffrind i bawb.
Anti Lil, anti i bawb.
Ffigwr Mamol.
Lil y post, tlws y fro.

*Sarah Williams*



**Brenin y Trenyrs!**




Llongyfarchiadau mawr iawn i Pryderi, Nant y Mynydd ar gyhoeddi ei lyfr cyntaf (o nifer gobeithio!) sef Brenin y Trenyrs. Llyfr sy'n addas i bobl ifanc, ond dwi'n siŵr y byddwn ni, y criw hŷn, yn ei fwynhau'n fawr hefyd! Ar gael yn y siopau rŵan! Pob dymuniad da i ti, Pryderi.

**Newyddion da**
Cafodd Marian Bleddyn newyddion calonogol y mis yma ac yn parhau i wella ar ôl ei thriniaeth- braf iawn oedd clywed y newyddion arbennig yma, rydym i gyd mor falch. Daliwch ati i gryfhau, Marian.

**Graddio**
Llongyfarchiadau mawr i Sarah Williams, 1 Glantwymyn, am ennill gradd BSc 2:1 mewn Gwyddoniaeth Feddygol ym Mhrifysgol yr Amwythig. Pob dymuniad da i'r dyfodol iti, Sarah.
Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gwawr, Cefn Coch ar dderbyn Gradd 2:1 mewn Menter Wledig a Rheoli Tir (Rural Enterprise and Land Management) yn Harper Adams. Mae hi bellach wedi ail ymuno â Marchnad Nock Deighton fel syrfëwr gwledig ac arwerthwr. Dymuniadau gorau iti, Gwawr yn dy yrfa.

**Y Dyfi**
Rydym yn falch o glywed bod Y Dyfi wedi agor ar y 17eg o Orffennaf. Mae hi wedi bod yn amser hir ers inni gael diod bach yno yng nghwmni pobl leol. Edrychwn ymlaen!

# Mudiad Meithrin yn dathlu'r 50!

Annwyl Olygydd,
Bydd Mudiad Meithrin yn dathlu pen-blwydd pwysig gan droi'n 50 flwyddyn nesaf (2021)! Yn naturiol, rydym yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol i ddathlu a chofnodi'r achlysur.

Ein bwriad yw casglu lluniau, hanesion diddorol a chofnod o ddigwyddiadau sydd yn gysylltiedig gyda'r Mudiad dros y blynyddoedd hyd at heddiw, er mwyn cyfoethogi'r amryw ddathliadau.

Os oes gan unrhyw un ohonoch chi lun, hanes neu brofiad i rannu a fyddech cystal â chysylltu gyda ni trwy e-bostio marchnata@meithrin.cymru gan nodi'r flwyddyn, enwau'r bobl yn y llun ac ychydig o wybodaeth i gyd-fynd os gwelwch yn dda.

Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan unrhyw un o blith eich darllenwyr sydd wedi mynychu un o'r Cylchoedd Meithrin cyntaf – hynny yw, y rhai oedd mewn bodolaeth cyn 1971.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich atgofion a phrofiadau.

Diolch yn fawr
Cofion
Dr Gwenllian Lansdown Davies
*Prif Weithredwr Mudiad Meithrin*

## Cemaes

Mrs Gill Jones, Brynmeurig
01650 511276
richardagill@live.co.uk

**Graddio**
Llongyfarchiadau mawr i Seren Johnson sydd wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Astudiaethau ac Addysg Plant o Brifysgol Aberystwyth. Pob dymuniad da ar gyfer y dyfodol, Seren.

**Efeilliaid**
Llongyfarchiadau i Aled a Nicola ar enedigaeth efeilliaid, sef Betty Lyn a Wynni Del, chwiorydd bach newydd i Gwenni a Charlie.

**Yn yr ysbyty**
Anfonwn ein cofion at Helen Pugh sydd yn Uned Twymyn, Machynlleth ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan i chi.

## Carno

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Chloe Keel o'r Drenewydd ar dderbyn anrhydedd LLB yn y Gyfraith o Brifysgol Aberystwyth. Mae Chloe yn ferch i Tony a Nia Keel ac yn wyres i Mary a'r diweddar Roy Williams, Trem y Noddfa, Carno.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau hwyr hefyd i Joan Phillips, Bronfelin ar ei champ o ddylunio cerdyn Nadolig mewn cystadleuaeth genedlaethol Merched y Wawr. Bydd y cerdyn yn awr ar werth fel rhan o becyn cardiau Nadolig y mudiad ac yn cael eu dosbarthu i aelodau trwy Gymru gyfan. Gwych iawn!

## Bontfaen ac Uwchygarreg

Miss Catrin Davies, Godre'r Graig
(01654 703226)
puddles3dragons@yahoo.co.uk

**Pen-blwydd Arbennig**
Bu Llinos, Henllan yn dathlu pen-blwydd arbennig ganol mis Mehefin. Gobeithio wnes di fwynhau'r dathlu gyda'r teulu.

## CLWB 300

**Dyma restr o enillwyr Gorffennaf 2020**

£50 - Myra James, Dolerw, Llanbrynmair
£40 - Evan Evans, Gwerniago, Pennal
£30 - Cameron, Megan a Heulwen, d/o 85 Tregarth, Machynlleth
£20 - Hywel Anwyl, Tyddyn, Llanbrynmair
£10 - Cathy Brown, Nant y Cyff, Aberangell

# Llanbrynmair

**Dyrchafiad gyda Heddlu De Cymru**
Llongyfarchiadau i Gerallt Hughes, gynt o Lanbrynmair, sydd erbyn hyn wedi pasio fel Arolygwr Lleol (Local Policing Inspector) yn Cathays, Caerdydd. Ymunodd Gerallt â Heddlu Dyfed Powys yn 22 oed ac wedi cyfnod fel heddwas yn Aberystwyth symudodd i weithio i Heddlu'r De lle bu'n Rhingyll yno ers 2014. Ymlaen rŵan i'r cam nesa'!

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Rhun Bleddyn, Brynmeini ar dderbyn gradd M.A 2.1 mewn Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Caeredin. Dymuniadau gorau i'r dyfodol iti, Rhun.

**Cydymdeimlad**
Gyda thristwch daeth y newydd am farwolaeth Rhian Williams, merch Glynmor a Lynfa, Yr Hendre, sef mam i Siôn, Llyr a Rhys a chwaer i Glenwen a'r diweddar Arwel. Cydymdeimlwn â'r teulu a'r cysylltiadau i gyd yn eu hiraeth. Hefyd mae ein cydymdeimlad gyda Mrs Brythonig Price, Drws y Cwm yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Mona Williams, Aberdyfi.

# Llanwrin

Heulwen Williams, Maes-y-Creiau
01650 511585
ifanwilliams13@gmail.com

**Llwyddiant Gradd**
Llongyfarchiadau i Rebeca Davies, Arfryn, sydd newydd raddio â gradd Meistr mewn Cerddoriaeth (Perfformio), MMus, o goleg *Conservatoire* Brenhinol yr Alban yn Glasgow. Astudio llais ac opera yr oedd Beca, sy'n gantores *mezzo-soprano*, a dyma ei hail radd Meistr ym maes cerddoriaeth. Pob dymuniad da i'r dyfodol Beca!

## Ysgol Llanbrynmair

**Gweithio o gartref**
Fel y gwyddoch, mae'r cyfnod yma wedi bod yn un tawel, er mae plant Ysgol Llanbrynmair wedi bod yn brysur iawn yn gweithio o adref. Thema'r ysgol gyfan tymor yma oedd 'O Dan Ein Traed' lle bu'r plant yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau a dysgu am drychfilod yr ardd, prosesau bywyd planhigion a hyd yn oed creaduriaid a phlanhigion y goedwig law yn Borneo. Bu dosbarthiadau CA2 yn darllen y nofel 'Ta Ta Tryweryn' gan Gwenno Hughes fel rhan o'u gwaith. Braf oedd gweld y disgyblion yn mwynhau hanes Cymru ac yn mynegi barn yn glir am ddigwyddiadau'r gorffennol.










**Plant nôl yn yr ysgol**
Ddydd Llun, Mehefin 29ain, agorwyd y drysau a chroesawyd criw o ddisgyblion yn ôl i'r ysgol. Ffocws y diwrnodau oedd iechyd a lles y plant a bu'r plant yn mwynhau creu lampiau lafa, lliwio ar y cyd, chwarae badminton a chreu barcud i hedfan yn y gwynt. Braf oedd gweld y disgyblion yn ôl ac yn mwynhau unwaith eto.



**Mabolgampau**
Er nad ydyn ni'n gallu cynnal ein mabolgampau yn yr ysgol eleni, nid yw hyn yn mynd i'n rhwystro. Bu'r plant wrthi ym mis Gorffennaf yn cynnal y gweithgareddau o adref ac yn anfon eu sgôr nol i'r ysgol er mwyn cael eu hychwanegu at y canlyniadau terfynol. Pob hwyl i'r holl ddisgyblion o fewn y 3 tîm, Twymyn, Clegyr ac Iaen. Pwy fydd yn ennill eleni tybed?

**Ffarwelio gyda Blwyddyn 6**
Eleni rydym yn ffarwelio gydag 8 disgybl blwyddyn 6. Mae holl staff a phlant yr ysgol yn dymuno'n dda i Morgan, Deio, Gwion, Gethin, Archie, Siwan a Cadi fydd yn mynychu Ysgol Bro Hyddgen ym mis Medi a Keira yn Ysgol Uwchradd Llanidloes. Diolch yn fawr i chi gyd am eich ymroddiad i'r ysgol dros y blynyddoedd diwethaf; rydym wedi gwerthfawrogi eich ymrwymiad yn fawr a bydd colled enfawr ar eich holau.

**Cofiwch os ydych am brintio'r Blewyn o Obaith, eich bod yn dewis yr opsiwn 'portrait' ac yn ticio'r blwch 'fit' fel ei fod yn ymddangos yn gyfan ar bapur A4.**

# Helpwyr Bach



Huw Ifan, Nantygaseg oedd â'r job bwysig o dagio'r ŵyn yn barod i'r farchnad

## Machynlleth

Gail Jenkins, Caffi Alys
01654703336 / caffialys@yahoo.com

**Capel Maengwyn**
Dymunwn fel aelodau o Gapel Maengwyn ddiolch i'r Parch Iestyn ap Hywel am ei fyfyrdodau (mae ei fyfyrdodau rheolaidd i'w gweld ar www.facebook.com/dyfihafren), hefyd am y llyfryn "I'r Cristion Mewn Cyfyngder" a anfonodd i bob aelod. Mae'r Parch Iestyn ap Hywel yn weinidog ar gapeli Dyffryn Dyfi a Dyffryn Hafren. Mae cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli yn cwrdd ddiwedd y mis yma i drafod pryd cawn agor drysau ein capeli unwaith eto. Fel eglwys edrychwn ymlaen at gael eich croesawu yn ôl; yn aelodau a ffrindiau'r achos, mae yma groeso i unrhyw un sy'n dymuno bod mewn gwasanaeth ar y Sul. Fel Cristnogion rydym ni yn ac wedi bod yn falch o'r gwasanaethau ar y radio a'r teledu ond toes yna ddim byd fel cwrdd a chymdeithasu wyneb yn wyneb. Diolch ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni ar y Sul yn y dyfodol agos.

GWESTY'R PENRHOS

Prydau tecawe ar gael bob nos Wener a nos Sadwrn rhwng 5 ac 8yh a dydd Sul rhwng 12 a 4yp.

I archebu ffoniwch y Penrhos ar 01650 511243 ar ôl 5pm neu Dawn ar 07808589349, Rhys ar 07818630511 neu Sian ar 07507836687

Diolch am eich cefnogaeth.

# Dysgwr y mis – Brad Wells

Brad Wells ydw i, dwi'n dod o Swydd Efrog yn wreiddiol ond rŵan dwi'n byw yn Llanwrin gyda fy ngwraig Jo a'r plant Jude (13) Matilda (11) a Sioned (6). Dwi'n gweithio gyda'r gwasanaeth tân a gyda BT. Dwi'n hoffi pêl droed, seiclo a threulio amser gyda fy nheulu.



1. **Pam wnaethoch chi benderfynu dysgu Cymraeg?**
   Ar ôl i mi ddechrau gweithio gyda BT roeddwn i'n cwrdd â lot o Gymry Cymraeg ac roedden nhw'n dechrau sgwrs yn y Gymraeg, ond roedd rhaid i mi ddeud "sori dwi ddim yn siarad Cymraeg" ac wedyn roeddwn i'n teimlo'n ddrwg achos oedd rhaid iddyn nhw siarad Saesneg gyda fi. Roeddwn yn gwybod rhai brawddeg yn Gymraeg fel "Bore da, Brad ydw i" a "dwi'n hoffi coffi" ond doedd hyn ddim yn ddigon i mi felly nes i benderfynu dysgu siarad Cymraeg o ddifri.

2. **Ble a sut aethoch chi ati i ddysgu Cymraeg?**
   Wel i ddechrau o'n i'n gwylio rhaglenni plant ar s4c a gwrando ar Radio Cymru ond wedyn nes i lawrlwytho ap 'Say something in Welsh' ar fy ffôn symudol ac roedd hwn yn help enfawr. Roeddwn yn gwrando ar y gwersi yn y fan tra roeddwn yn teithio o un gwaith i'r llall.

3. **Sut mae dysgu Cymraeg wedi newid eich bywyd?**
   Wel dwi dal ddim yn hollol rhugl, ond mae'n hyfryd i gael sgwrs gyda pobl lleol yn yr iaith Gymraeg, yn enwedig pan dwi'n cwrdd â cwsmeriaid sy'n dechrau sgwrs yn y Gymraeg, achos rŵan does dim rhaid i mi ddeud sori a troi at y Saesneg. Hefyd, fel un o dystion Jehofa mae wedi bod yn arbennig i rannu ysgrythurau gyda phobl yn eu mamiaith o'r Beibl Cymraeg, hyd yn oed hen Feibl William Morgan. Mae dysgu Cymraeg wedi fy helpu i ddeall pam mae pobl Cymraeg yn teimlo mor gryf am eu iaith nhw, Mae'r iaith Gymraeg yn brydferth ac mae pobl Cymraeg yn teimlo'n gyfforddus pan maen nhw'n siarad Cymraeg yn yr un ffordd â dwi'n teimlo'n gyfforddus pan dwi'n siarad fy mamiaith i, Saesneg. Mae'r iaith Gymraeg yn arbennig a dwi'n cymryd bob cyfle i ddefnyddio hi.

4. **Beth yw'r peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg?**
   Dwi'n meddwl y peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg yw'r treigladau. Mae'n cymryd sbel i weithio allan pryd i dreiglo a dwi dal yn gwneud camgymeriadau.

5. **Oes ganddoch chi hoff raglen teledu Cymraeg?**
   Oes, dwi wrth fy modd gyda "Y Gwyll" a "Dim Byd"

6. **Beth ydych yn mwynhau am ddysgu Cymraeg?**
   Dwi'n mwynhau cael sgwrs gyda rhywun a gweld pa mor hir ni'n gallu siarad cyn iddyn nhw sylweddoli mod i ddim yn Gymro  Hefyd dwi'n mwynhau gweithio allan pam mae lleoedd wedi cael eu enwau felly mae dysgu Cymraeg wedi helpu fi ddeall yr ardal yn well.

7. **Oes unrhyw beth all ein darllenwyr wneud er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr?**
   Ie, plis peidiwch chwerthin gormod pan mae dysgwyr yn siarad Cymraeg ond yn swnio'n dwp.  Mae'n cymryd amser i deimlo'n hyderus ond mae'r hyder yn diflannu'n gyflym os mae rhywun yn gwneud sbort. Mae'n bwysig i fod yn amyneddgar a cofio os ydych chi'n deall beth mae'r dysgwyr yn trio dweud, wel dyna beth sy'n bwysig. Peidiwch â cywiro nhw os nad oes rhaid. Y tro nesa chi'n clywed rhywun Saesneg yn dweud "I wish I could speak Welsh" dywedwch wrthyn nhw i fynd at ap 'Say something in Welsh' a cefnogi nhw achos mae o wir yn gweithio.

8. **Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg?**
   *Popty Ping* a *llyncu mul*

# Ysgol Bro Hyddgen – Campws Cynradd

**Darparu Gofal Plant i Weithwyr Allweddol a Phlant Bregus**
Yn ystod wythnosau hir y Cyfnod Clo gwnaethpwyd trefniadau i staff Ysgol Bro Hyddgen ac ysgolion y Ffederasiwn ddarparu gofal plant i weithwyr allweddol a hefyd i blant bregus y dalgylch. Lleolwyd yr Hwb Gofal Plant ar gampws cynradd Ysgol Bro Hyddgen oedd yn agor ei drysau i'r plant ddod i dderbyn gofal rhwng 8.00am a 6.00pm bob dydd. Lluniwyd rota o staff a bu'n gyfle heb ei ail i athrawon a staff cymorth ysgolion y dalgylch gydweithio a dod i adnabod ei gilydd yn well - er gwaetha'r amodau anodd. Teg dweud bod y plant fu'n mynychu'r Hwb wedi cael profiadau gwirioneddol wych. Roedd y staff yn paratoi amrywiaeth o dasgau creadigol i gadw'r holl blant yn brysur ac yn ddiddig. Fwyaf pwysig, roedd y rhieni yn gallu gadael eu plant yn yr Hwb, yn gwybod eu bod nhw'n saff am y dydd.

**Profiadau Plant yn yr Hwb**
Dw i wedi bod yn yr hwb yn aml a dwi wedi cael amser hyfryd ac wedi mwynhau'r holl ddiwrnodau. Rhai o fy hoff bethau oedd creu *tie die*, gwneud canhwyllau a pheintio. Mi wnes i hefyd fwynhau cael y cyfle i ddod i nabod yr athrawon o ysgolion gwahanol – roedd pawb mor garedig ac yn ceisio rhoi profiadau gwahanol i ni. Roedd hi'n deimlad braf gweld fy holl ffrindiau a bod yn ôl yn yr ysgol.
*Freya Blwyddyn 6*

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydw i wedi bod yn dod i'r Hwb. Rydw i wedi bod wrth fy modd yn dod i mewn i weld fy holl ffrindiau ac mae wedi bod yn hwyl chwarae gyda nhw unwaith eto. Rydw i wir wedi mwynhau gwneud crefftau fel arlunio, peintio a gwneud llawer o wahanol bethau. Fe wnes i hefyd fwynhau gwneud ychydig o bobi cacennau. Roedd pob dydd yn wahanol gyda digon o bethau i'w gwneud. Rwy'n hoffi gweld yr holl athrawon ac rydw i wir wedi mwynhau cwrdd ag athrawon newydd o'r holl ysgolion eraill. Roedd pawb mor garedig. Dw i'n mwynhau bod y tu allan yn yr awyr iach tra bod yr haul yn tywynnu, yn chwarae gyda fy ffrindiau a hyd yn oed yr athrawon yn ymuno mewn rhai gemau ac yn ymuno â ni yng nghampfa'r jyngl. Diolch i'r holl athrawon am bopeth rydych chi'n ei wneud!
*Emily Blwyddyn 3*

**Ailagor**
Braf iawn oedd cael ailagor drysau'r ysgol i'r holl blant o ddydd Llun 29 Mehefin ymlaen. Lluniwyd amserlen ofalus sydd wedi cynnig cyfle i bob plentyn gael dod i'r ysgol i'w ddosbarth arferol o leiaf dair gwaith cyn diwedd y tymor estynedig: 24 Gorffennaf. Mae hyn wedi rhoi cyfle i blant ailgynefino â threfn ysgol ac i gynefino o'r newydd â rhai amodau newydd, megis cadw pellter cymdeithasol a mesur tymheredd ar ddechrau'r dydd.
Diolch enfawr i'r staff technegol a staff glanhau am dorchi llewys a sicrhau bod pob congl o'r ysgol wedi ei glanhau yn ddwfn cyn yr ailagor. Diolch hefyd i'r athrawon a'r staff cymorth am gydweithio'n arbennig er mwyn darparu ar gyfer ailgydio mewn patrwm dysgu wyneb yn wyneb. Mae'n glir bod y ddarpariaeth wedi bod yn werthfawr i'r plant gyda phawb yn adrodd pa mor braf yw cael ymgysylltu wyneb yn wyneb unwaith eto.

**Cyflwyniad gan y Prif Ddisgyblion**
Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ailagor, lluniodd y prif Ddisgyblion gyflwyniad *Croeso Nôl* arbennig iawn. Gellir ei weld yma: https://brohyddgen.cymru/index.php/2020/06/29/fideo-lles-a-grewyd-gan-y-prif-ddisgyblion/?lang=cy

**Fideo Croesawu Plant Newydd i'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi**
Gan na fu'n bosib cynnal sesiynau blasu i blant meithrin fydd yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi, mae staff y Cyfnod Sylfaen wedi creu fideo i'w croesawu i'r Dosbarth Derbyn. Gellir gweld y fideo drwy glicio ar y linc yma: <https://brohyddgen.cymru/index.php/welcome-to-the-foundation-phase/?lang=cy>








Ail agor

# Ysgol Glantwymyn




**Ffarwelio gyda Blwyddyn 6**
Mae hi'n ddiwedd cyfnod ar ddisgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Glantwymyn mis yma ac rydym yn ffarwelio gydag 11 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sef Abigail, Cerys, Elsi, Gwenno, Jaelan, Luke, Mabon Hedd, Mabon Siôn, Morus, Steffan a Tomi. Hoffem ddymuno pob hwyl i chi ar Gampws Uwchradd Ysgol Bro Hyddgen - mi fydd hi'n rhyfedd iawn yn Ysgol Glantwymyn hebddo chi ac mi wnawn eich methu chi, felly brysiwch yn ôl i'n gweld ni pan gewch chi gyfle.

**Dychwelyd i'r Ysgol**
Mae wedi bod yn braf iawn croesawu'r disgyblion yn ôl i Ysgol Glantwymyn yn yr wythnosau diwethaf. Gweler yn y collage piws rai o ddisgyblion Blwyddyn 3 & 4 yn mwynhau gweithgareddau yn yr ysgol.

**Diolch**
Diolch yn arbennig i'r holl ddisgyblion a rhieni sydd wedi bod yn brysur iawn yn addysgu eu plant adref yn ystod y cyfnod heriol yma. Rydym wedi derbyn gwaith arbennig ac yn falch iawn ohonoch chi gyd. Gweler yn y collage gwyrdd, pinc a glas luniau o'r gwaith mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn ei wneud adref.

YN EISIAU

CYMHORTHYDD DOSBARTH

22 AWR YR WYTHNOS
HYDREF 2020 – GORFFENNAF 2021

Dyddiad Cau: 2 Medi 2020

Am ragor o fanylion cysylltwch â
Mrs Bethan Gwawr Jones
e-bost: JonesB441@hwbcymru.net neu
office@glantwymyn.powys.sch.uk

Ewch i https://recruitment.powys.gov.uk i lawrlwytho 'r swydd ddisgrifiad a'r ffurflen gais

# Newyddion Menter Maldwyn

**GOHIRIO GŴYL CERDD DANT BRO NANSI**

Temtio ffawd oedd dewis cynnal Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi 2020 yn Llanfyllin chwedl rhai! Dim ond unwaith erioed yn hanes yr ŵyl, ers ei chynnal am y tro cyntaf yn 1947, y bu'n rhaid gohirio'r ŵyl. Roedd hynny nol yn 1967 o ganlyniad i'r clwy' traed a'r genau. A'r lleoliad oedd Llanfyllin wrth gwrs!

Fis Tachwedd diwethaf, tra roedd yr Ŵyl yn cael ei chynnal yn Llanelli, a hanner y criw oedd yn canu'r Cywydd Croeso yn sownd ym Maldwyn dan bentwr o eira, cafwyd trafodaeth brys ynglŷn â sicrhau yswiriant ychwanegol rhag ofn bod rhaid gohirio oherwydd tywydd gwael. Doedd gohirio oherwydd pandemig byd-eang heb groesi meddyliau neb!






Ond dyna a fu! Tybed beth fyddai'r hen Nansi yn meddwl o'r sefyllfa ryfedd yma, â gwisgo mygydau a chadw pellter o ddau fetr bellach yn rhan o'n realiti newydd?! Mi fydd ffitio'r corau mawr ar lwyfan Llanfyllin yn ddigon o her, heb sôn am orfod cadw dau fetr rhwng pob aelod. Byddai'n rhaid codi estyniad hyd y cae pêl-droed!

Yn dilyn cyfarfodydd arbennig rhithiol o'r Pwyllgor Gwaith lleol ac o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, cytunwyd o dan yr amgylchiadau a'r ansicrwydd sy'n parhau gyda phandemig Covid-19 i ohirio Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi, Llanfyllin 2020 am flwyddyn. Dyddiad newydd yr ŵyl fydd y 13eg o Dachwedd, 2021.

Meddai Llio Penri, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

*"Er yn siomedig, roedd Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas Cerdd Dant yn gwbl unfrydol yn y penderfyniad i ohirio Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi ynghyd â nifer o weithgareddau eraill y gymdeithas. Byddai unrhyw benderfyniad arall wedi bod yn gwbl anghyfrifol. Y mae hyn, wrth gwrs, yn ofid, ond rwy'n falch nodi bod pwyll, rheswm a doethineb yn llywio'r penderfyniad. Iechyd a diogelwch y cyhoedd yw'r flaenoriaeth nawr. Fe ddaw eto cyfle i gyd-fwynhau ein diwylliant. Yn y cyfamser mae'r posibiliadau drwy gyfryngau rhithiol yn gynhyrfus ac ar waith."*

**AMSER STORI NA NEL**

"Dewch o hyd i gornel glyd, mae'n amser i gael stori.

Swatiwch lawr am antur fawr, i fyd sy'n llawn direidi!"

Mae'r Fenter wedi gweithio gyda'r actores a chantores Siân James a Gwasg y Lolfa er mwyn recordio storïau llyfrau Na Nel. Mae hwn yn amser stori hyfryd i blant rhwng 6-10 oed i wrando a gwylio ar You Tube. Maent yn hynod o ddefnyddiol i blant sy'n derbyn addysg Gymraeg a heb riant neu athro adre sy'n gallu darllen Cymraeg iddynt. Gellir dod o hyd i'r stori gyntaf ar dudalen You Tube Menter Iaith Maldwyn neu trwy ddilyn y linc yma: <https://youtu.be/PFX6FiSlC9w>.

**BRWYDR Y BWGAN BRAIN**

Allwch chi greu bwgan brain gorau Cymru?

Am y tro cyntaf eleni, mae Mentrau Iaith Cymru yn cynnal cystadleuaeth genedlaethol i annog pobl ymhob rhan o Gymru i greu bwganod brain.

Yn aml iawn, mae creu bwgan brain yn gystadleuaeth boblogaidd mewn sioeau lleol ar draws y wlad, ond gyda'r sioeau hyn wedi'u canslo neu ohirio ar hyd a lled Cymru eleni, mae'r Mentrau am gynnal cystadleuaeth i godi calon a dod â chymunedau ar draws Cymru ynghyd i gystadlu i ddarganfod Bwgan Brain Gorau Cymru. A'i chi fydd pencampwr **Brwydr y Bwgan Brain 2020?**

Y thema fydd Cymru - felly beth am greu bwgan brain o'ch hoff gymeriad S4C neu lyfr o'ch plentyndod? Tybed sawl bwgan brain Sali Mali neu Wali Tomos gawn ni weld? Neu beth am gymeriad hanesyddol neu wleidyddol o Gymru? Owain Glyndŵr neu Aneurin Bevan? Neu ai eich arwr Cymreig fydd yn ysbrydoli eich bwgan brain? Joe Allen neu Elin Fflur?

Anogir cystadleuwyr i ailddefnyddio ac ailgylchu'r hyn sydd ganddynt yn eu tai neu eu siediau eisoes a bod mor greadigol â phosib.

Yn syml, dyma sydd angen i chi wneud:

- Creu bwgan brain ar y thema Cymru
- Gosod eich bwgan brain mewn safle diogel ac addas
- Gyrru llun o'ch bwgan brain i'ch Menter Iaith leol erbyn 3ydd o Awst (menteriaithmaldwyn@gmail.com)
- Rhannwch y llun ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio #BwganBrain a tagiwch eich Menter Iaith leol.

Mi fydd enillydd pob ardal yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol i gystadlu am wobr arbennig **Brwydr y Bwgan Brain 2020**, sef darlun unigryw a lliwgar o waith yr artist Rhys Padarn Jones. Y cyflwynydd radio a theledu adnabyddus a phoblogaidd Ifan Jones Evans fydd yn cael y dasg o feirniadu'r rownd genedlaethol ac mi fydd Mentrau Iaith Cymru yn cyhoeddi'r enillydd cenedlaethol ddydd Llun, 17eg o Awst.

I gystadlu yn rownd Menter Iaith Maldwyn gyrrwch eich llun draw at menteriaithmadlwyn@gmail.com erbyn y 3ydd o Awst. Y gyflwynwraig teledu Mari Løvgreen fydd yn beirniadu rownd Maldwyn. Am y diweddaraf ynghylch y gystadleuaeth dilynwch #bwganbrain ar y cyfryngau cymdeithasol.



# Ymson Hedd Wyn

Yn rhifyn Mehefin o Blewyn o Obaith, soniwyd fod Osian Pennant o Lanbrynmair wedi dod yn ail mewn cystadleuaeth lenyddiaeth gyda Chymdeithas Maldwyn. Mae Osian yn garedig iawn wedi rhannu'r darn buddugol gyda'n darllenwyr. Diolch yn fawr iti, Osian a dal ati i ysgrifennu!

* * * *

Fy mrwydr fawr. Fydda i'n fyw fory? Ydy'r awdl nôl yng Nghymru fach? Ydy fy nheulu dal yn fyw? Mae gymaint o gwestiynau yn gwibio drwy'm meddwl. Mae sŵn byddarol y gynnau yn boddi fy llais wrth i fi drio meddwl am unrhyw beth heblaw'r hen ryfel yma. Rwy'n marw dros Bob. O Dduw plîs tyrd a'r rhyfel ofnadwy yma i ben. Amen.

Mae'r lle'n drewi 'n waeth na'r twlc mochyn adre'. Mae'r llygod yn bla ac mae' nhraed wedi chwyddo. Does dim posib cysgu am fwy na hanner awr yn y ffosydd cul 'ma. Mae chwibanau'r hyfforddwyr yn cael eu chwythu bob dwy funud. Dwi yma yn poeni fel miloedd o fechgyn ifanc eraill. Poeni am adref, ofn beth sydd o'n blaenau. Calonnau pawb mor unig ag ysgol heb blant. Dwi'n teimlo fel bod y byd ar ben. Dim ond cwpwl o oriau tan yr ymosodiad enfawr. Mae Gruff a Moi yn chwythu ar eu pibellau. Y mwg yn codi tuag at y nefoedd fel fydd ein heneidiau ni cyn diwedd yr hen ryfel 'ma. Y tri ohonom yn gorffwyso yn y ffos wedi diflasu fel plant bach mewn eglwys.

'Tyner yw'r lleuad heno-tros fawnog
Trawsfynydd yn dringo:
Tithau'n drist a than dy ro
Ger y ffos ddu'n gorffwyso.'

Dwi'n teimlo 'n nerfus ofnadwy wrth syllu'n ofalus dros dop y ffos. Yr unig beth sydd i'w weld ydy weiren bigog ,ambell i groes, a duwch llwyr. Mae'r lle yn ddu fel bol buwch. Yna'n sydyn fflach yna ffrwydrad... Mae'r chwiban yn cael ei chwythu ac i ffwrdd a ni. Moi gyntaf, yna Gruff. Be wnâi. Dwi ddim eisiau cael fy llall gan fois ein gwlad ni ond... Mae'r swyddog yn sgrechian yn fy nglust "*Come on lad!!*" "*MOVE!!!*" Teimlaf yn sâl yn sydyn. Ond, ffwrdd a fi. Mae pob math o bethau'n mynd rownd fy mhen. Mae bwledi 'n dod o bob cyfeiriad. Mae bechgyn yn cwympo ym mhobman fel bod creigiau enfawr yn eu taro i'r llawr. Dwi'n clywed Moi yn sgrechian" ELIS!!!!" Neidiaf i'r llawr wrth i ffrwydrad lanio o fewn ychydig fetrau i fy nghoes. Dechreuaf gropian fel milwr ar hyd y tir, gwlyb ,budr, caled. Am eiliad caeaf fy llygaid yn dyn a gweddïo'n dawel bod popeth yn mynd i fod yn iawn a mod i'n mynd i gyrraedd nôl i Drawsfynydd yn fyw. Yn sydyn penderfynaf godi nôl ar fy nhraed a dal fyny hefo'r lleill. Mae'r dillad ar fy nghefn yn ofnadwy o drwm a gwlyb. Teimlaf fel crwban yn ymlwybro ar hyd anialwch diddiwedd sydd ar ganol cael ei ffrwydro. Unwaith eto dechreuaf hiraethu am fferm yr Ysgwrn. Roedd yna werth misoedd o waith ar ôl pan adewais. Ac er nad ydw i'n rhy hoff o fugeila dwi wir yn ei golli erbyn hyn.

'Gadael gwaith a gadael gwydd, gadael ffridd
Gadael ffrwd a mynydd;
Gadael dol a gadael dydd,
A gadael gwyrddion goedydd.

Lle mae Bob ar yr union eiliad yma? Roedd o eisiau dod i'r hunllef o le yma ond do'ni ddim yn teimlo'n deg yn gwneud hynny. Fe fyswn ni'n gwneud unrhyw beth i fod nôl yn troedio tir Trawsfynydd. Mae'n siŵr bo' nhw wrthi'n hela'r cynhaeaf i mewn. Lle mae Jini? Fe fyswn ni'n caru ei gweld hi eto. Mae'r lle'n lladdfa llwyr. Mae un bwled ar ôl y llall yn gwibio heibio. Yn sydyn, gwelaf bwll dwfn llawn pridd gwlyb a chyrff marw. Gwelaf y sarjant o'm blaen yn cwympo i'r llawr. Dwi'n teimlo'n sâl, dwi'n teimlo'n unig. Mae'r byd ar ben. Edrychaf o'm cwmpas i drio dod at fy hun. Ond, gwelaf olygfa hunllefus. Yna o flaen fy llygaid mae ffrwydrad enfawr o bridd yn boddi Moi cyn i don o ddŵr wneud iddo ddiflannu. Am un eiliad fach dawel teimlaf fel bod popeth wedi stopio. Dechreuaf grio. Cloddiaf yn wyllt ond does dim gobaith. Dwi eisiau aros fan hyn am byth er mwyn anghofio popeth a bod hefo Moi ond mae'n rhaid mynd. Codaf fy helmed fetel i fyny cyn dechrau rhedeg. Gwelaf weiren bigog o fy mlaen . Dwi erioed wedi teimlo mor wan o'r blaen. Mae dau o filwyr yr Almaen yna yn syllu arnaf. Rhaid eu bod yn teimlo'n union fel dwi'n teimlo. Codaf fy *reiffl* ond mae fy mysedd yn gwrthod symud. Yr holl oriau dreuliais yn y capel yn dysgu am y deg gorchymyn. Dyna ni, teimlaf y boen yn saethu rownd fy nghorff wrth i'r bwled fy nharo fel carreg finiog. Gorweddaf yn llonydd ar lawr gwlyb afiach Belg. Syllaf i fyny a dyna lle mae annwyl Arianrhod yn gwenu lawr arnaf. Clywaf y milwyr meddygol yn rhythu arnaf ta fy mod yn llyncu eiliadau olaf fy mywyd. Teimlaf yn rhyfedd, yn wahanol yn drist ond eto yn falch, yn hapus yn unig. Teimlaf fel mae hwn ydy'r diwrnod mae Duw wedi dewis i farw. Agoraf fy llygaid. Roedd hyd yn oed hyn yn mynd a fy nerth. Gwenaf yn ysgafn i fyny. Ar yr *officar* oedd yn llenwi nodwydd hefo meddiginiaeth od yr olwg. Am yr un tro olaf meddyliaf am Bob, am Yr Ysgwrn, Jini, y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw ac am fy nheulu, popeth sy'n aros amdanaf i nôl yng Nghymru fach. Caeaf fy llygaid yn dyn wrth i wyneb Arianrhod ddiflanu. Mae'r diwedd wedi dod. Mae fy mrwydr fawr drosodd.

'Wedi ei fyw y mae dy fywyd,-dy rawd
Wedi ei rhedeg hefyd:
Daeth awr i fynd i'th weryd,
A daeth i ben deithio byd.

# Helpwyr Bach



Dyma Garmon, Bron y Gân yn helpu Mam yn ei gwaith gyda Doti'r ci.



Mae Martha, Bron y Gân wedi bod yn brysur yn helpu gyda'r gwaith tŷ.



Efan Wyn, Dugoed Mawr yn dysgu'r grefft o gneifio yn ifanc iawn!




Aron Meddins yn brysur yn helpu i farcio ŵyn

# CARNIFAL

# MACHYNLLETH A'R CYLCH















CARNIFAL











# CARNIFAL























# CARNIFAL





## Aberllefenni


Nia Edwards, Y Plas
01654 761687 /
mamaplas@hotmail.com

Diolch yn fawr i Mr Philip Lloyd am anfon yr isod atom. Llun o'r 'Aberllefenni Slate Dressers' oedd wedi dod i'w feddiant a neges yn llenwi'r cefn.

Gwelir o'r llun bod gordd gan sawl un - rhai mawr a mân, a rhaw a llif hefyd ac eraill heb ddim byd.

Mae'n ymddangos bod gan yr anfonwr gymaint i'w ddweud nes ei bod hi neu fo wedi llenwi'r ochr, heb adael lle i enw a chyfeiriad a stamp. Os cafodd y cerdyn ei anfon drwy'r post byddai wedi cael ei roi mewn amlen. Tybed oes gan rai o'n darllenwyr fwy o wybodaeth am y llun o'r cyfnod hwn?




# Cwmni Creadigol Ennyn CIC yn addasu dros y cyfnod cloi

Sefydlwyd cwmni creadigol Ennyn CIC flwyddyn ddiwethaf gan Elin Crowley o Dŷ Gwyn, Forge, a Nicky Arscott o Rydymeirch, Llanbrynmair. Bu'r ddwy yn brysur dros y flwyddyn ddiwethaf yn sefydlu'r cwmni ac yn cynnig gweithdai a gweithgareddau celf mewn ysgolion ac yn y gymuned. Yn ogystal â Nicky ac Elin, mae Dr John Shaw a Wendy Davies yn gweithredu fel Cyfarwyddwyr ymgynghorol.


Roedd dechrau'r cyfnod clo yn amser ansicr i lawer o fusnesau, gan gynnwys cwmni Ennyn. Collwyd llawer o waith mewn ysgolion, ond fe ddaeth yn amlwg yn eithaf buan yn ystod y cyfnod bod modd addasu'r busnes a chynnig gweithgareddau mewn ffordd newydd. Mae Elin a Nicky wedi llwyddo i wneud hyn ar brosiect sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Gymunedol Y Gronfa Loteri Fawr. 'Plan Bee' ydy enw'r prosiect, sy'n weithredol yn Llanbrynmair, gyda chymuned newydd ar facebook, llwyth o fideos addysgiadol am wenyn a phecynnau celf i gyd fynd a fideos gyda syniadau gweithgareddau celf. Mae'r fformat yn bendant wedi bod yn llwyddiannus ac wedi profi bod modd addasu mewn cyfnodau ansicr fel hyn, a bod cyfnodau anodd yn gallu ein gorfodi i addasu a meddwl am yr hyn y gallwn gynnig mewn ffyrdd creadigol. Mae creu fideos o weithgareddau celf wedi bod yn un ffordd o wneud hyn, ac mae llwyth o fideos ar gael erbyn hyn ar eu gwefan www.ennyncymru.com.

Mae Ennyn yn cydweithio rŵan gyda'r elusennau Eco Dyfi, PONT, a 'Bro Ddyfi Community Renewables' ar brosiect 'Dolau Dyfi' (mwy o wybodaeth yma: https://www.pontcymru.org/dolau-dyfi/

Nod prosiect 'Dolau Dyfi' yw adfer cynefinoedd blodeuo ym Mro Ddyfi er lles y peillwyr, yr adar a rhywogaethau eraill, gan greu cyfleoedd newydd i ni hefyd ymgysylltu â natur.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mi fydd Ennyn yn cynnig gweithdai zoom a phecynnau celf i ddisgyblion Ysgolion Tal y Bont, Glantwymyn, Llanbrynmair a Bro Idris (safle Dinas Mawddwy) dros wyliau'r haf, ac yn gobeithio y caiff y plant brofiad celfyddydol gwych tra'n dysgu am




bwysigrwydd y bywyd gwyllt o'u cwmpas.

Mae Ennyn yn edrych ymlaen at ddatblygu'r cwmni a chynnig mwy o weithgareddau ym Mro Ddyfi ac o amgylch Cymru sy'n dod â chymunedau ynghyd drwy rannu profiadau.

Creadigrwydd yw canolbwynt yr hyn mae Ennyn yn cynrychioli, i gefnogi unigolrwydd, iechyd a lles, ac mae Elin a Nicky yn credu'n gryf bod gan bawb hawl i gael mynediad i'r celfyddydau a chreadigrwydd - er lles pawb.

## Corris Uchaf

Ruth Selman
ruthselman57@gmail.com

**Pen-blwydd**
Dymunwn ben-blwydd hapus hwyr i John Pimlott 22 ac i Osian Wells ar ei ben-blwydd arbennig yn un ar hugain oed. Gobeithio eich bod wedi medru dathlu rhywfaint fechgyn!

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at ddau o drigolion ein pentref sef, Ifor Jones, Gwyngyll ar golli ei dad, David Trefor, ac i David Gosney, 5 Bethania Terrace yn dilyn marwolaeth ei fam, Margaret. Hefyd gyda thristwch mawr rhaid i ni ffarwelio gydag un o aelodau hynaf ein cymuned sef Ruth Jones, Bronmeirion. Anfonwn ein cydymdeimlad a chofion gorau at ei mab Alan Huw a'r teulu.

**Trigolion creadigol**
Er ei fod wedi bod yn amser anodd iawn i bawb, mae'n amlwg ei fod hefyd wedi bod yn amser creadigol iawn i nifer o drigolion y pentref. Mae Molly Sandells wedi bod yn fentrus iawn ac wedi sefydlu busnes bach yn creu darnau o waith celf unigryw a'u gwerthu yn lleol ac ar 'Etsy'. Mae'r ffens tu allan i dŷ Beth Bennet yn werth ei weld ac wedi'i beintio a'i addurno â llaw. Rhaid edrych o'r brifordd ac ar draws yr afon Deri i weld gwaith llafurddwys Jonathan Selman sef wal gerrig 30 metr o hyd. Da iawn chi i gyd!








## Penegoes

Mrs Olwen Roberts, Tegfan
01654 702616

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau calonnog i ddwy o ferched ifanc lleol wedi iddynt raddio o Brifysgol Aberystwyth. Mae Seren Johnson, Erw Las wedi ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn 'Astudiaethau Addysg Plant' a Megan Lewis, Gallt y Llan hefyd wedi ennill gradd yn yr un cwrs ac yn bwriadu mynd yn ôl i'r Brifysgol Aberystwyth i wneud cwrs 'Hyfforddiant Athrawon'. Pob dymuniad da i chi'ch dwy.
Dymunwn yn dda i'r rhai fydd yn dechrau yn yr ysgol neu'n symud ymlaen i ddosbarthiadau uwch, Coleg neu sydd ar gychwyn ar yrfaoedd newydd a hynny ar adeg digon pryderus.

**Croeso**
Croeso cynnes i Deiniol Watkin Jones sydd wedi ymgartrefu yn 3 Fronheulog wedi symud o'r Bala. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn y pentref.

**Ymddeoliad**
Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i David Lewis, Rowenda wedi bron i 48 o flynyddoedd yn gweithio gyda chwmni BT. Gobeithio y cewch amser hamddenol a hapus i fwynhau cwmni eich teulu bach.

**Cleifion**
Anfonwn ein cofion at Lisa Dixon, 6 Maesafallon, wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais, ond sydd erbyn hyn yn ôl yn ei chartref.
Cofiwn hefyd am Roberta Williams, Gwernafon, wedi iddi gael triniaeth yn Ysbyty Gobowen, ac ar hyn o bryd yn cael gofal yn Uned Ysbyty Twymyn, ac mae Gareth Evans Llys Garwen yn Ysbyty Bronglais.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad at Mererid Johnson, Erw Las a Siân Lewis, Erw'r Llan a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli eu cyfnither, Rhian Williams (Y Coed, Llanbrynmair gynt). Cydymdeimlwn hefyd â Gwion Aeron, Maes y Neuadd sydd wedi colli ewythr sef, Y Parch John Lewis Jones.

## Croeso i newidiadau Cynllun Amgylcheddol

"Cam cadarnhaol ymlaen," oedd yr ymateb heddiw efo'r cyhoeddiad bod arweiniad a natur y prosiect Mynydd i'r Môr yn ardal Machynlleth wedi newid yn sylweddol a bellach dan arweiniad RSPB ar ôl i grwp 'Rewilding Britain' adael y cynllun.

Creodd y cynllun gwreiddiol lawer o wrthdaro a chwyno am y diffyg perchnogaeth leol ac yn sgil cyfarfod cyhoeddus yn Nhalybont sefydlwyd grŵp ymgyrchu cymunedol o'r new COPA. Pasiodd Cyngor Sir Powys hefyd gynnig yn beirniadu'r cynllun a'r dull gweithredu. Yn fuan wedi hynny tynodd Rewilding Britain allan o'r cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd Elwyn Vaughan, ward Glantwymyn, Cadeirydd grŵp cymunedol COPA;

"Rydym yn hapus iawn bod y prosiect wedi gwrando ar y pryderon a fynegwyd dros y 18 mis diwethaf, a gydag ymadawiad Rewilding Britain a'u gweledigaeth, ynghyd ag ailstrwythuro'r prosiect yn gyfan gwbl, eu bod nawr yn gobeithio ffurfio sylfaen newydd ar dir glân sydd yn wirioneddol adlewyrchu cymuned a thirwedd yr ardal hon. Os bydd y fath o drafodaeth gadarnhaol ac adeiladol yr ydym wedi profi dros y misoedd diwethaf yn parhau i lywio'r prosiect wrth iddo ddatblygu, rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld beth ddaw ohono a'r cyfraniad gall wneud tuag at sicrhau cymunedau cynaliadwy yn yr ardal."

# Blewyn o'r Beirdd

## *gan Mari Lisa*

Y mis diwethaf, roeddwn i'n sôn am y penillion a'r dywediadau bychain oedd wedi'u hysgrifennu mewn hen lyfrau llofnodion yn fy meddiant a llawer o'r rheini'n gyfansoddiadau anhysbys. Rhigymau talcen slip yw nifer, sy'n amlwg yn gwneud y rownds o lyfr i lyfr, er enghraifft "*By hook or by crook, I'm the last in this book*", a doethinebu ar fydr ac odl fel y pennill cyfarwydd hwnnw:

> "Da, gwell, gore
> cofia hyn bob bore:
> doed y da yn well o hyd
> a'r gore'n ore yn y byd."

Erbyn fy nyddiau coleg mae yna ddyfyniadau o waith Dylan Thomas, Paul Verlaine, a hiwmor tywyll Harry Graham. Ar y cyfan, po fwyaf diweddar yw'r llyfrau y lleiaf o Saesneg sydd ynddyn nhw. Mae gweithiau Waldo a Dic Jones yn ffefrynnau, ac mae yna ddarnau o waith Gerwyn Wiliams, a hyd yn oed rhan o gân Ail Symudiad, *Gwrando ar y Geiriau*. Mae yna hefyd rigwm, anhysbys, sy'n amlwg yn hanu o gyfnod y mudiad dirwest yng Nghymru, ac efallai'n gyngor doeth ar drothwy cyfnod coleg!

> "Mae tafarn fechan fach yn bod,
> gall pawb ei chau heb gŵyn,
> a saif y dafarn fechan hon
> yn union dan eich trwyn."

Mae yna bennill tlws yn ysgrifen hardd Taid Camlan (Camlan Uchaf, Mallwyd, sydd bellach wedi'i ailfedyddio The Firecat Country House!) Mi alla i weld Taid yn ei ysgrifennu'r munud yma a chofio imi ddotio at y pennill er na wyddwn pwy oedd y bardd. Yn ystod y cyfnod clo, bûm yn byseddu rhai o'r cyfrolau yn yr hen gwpwrdd llyfrau. Un o'r llyfrau hynny oedd 'Breuddwydion Mebyd' gan J. Baldwyn Jones, ac yn hwnnw, ar ddamwain, y deuthum ar draws yr union bennill yn fy llyfr llofnodion yn agor cerdd 'Yr Ysbryd Cudd'.


Roedd Baldwyn Jones yn gefnder i daid Mr Wyn Jones, Tŷ'n y Braich. Ganwyd Baldwyn yn Llwyn-y-grug, yn gyw melyn olaf John Jones (JJ Tŷ'n y Braich), a Sarah, merch Llwyn-y-grug. Maes o law, ymgartrefodd y teulu ym Meirionfa, Minllyn, i redeg busnes glo a chalch, ac aeth Baldwyn i Brifysgol Bangor a dod adre'n ddiweddarach i helpu'i dad. Casglwyd a golygwyd gwaith Baldwyn gan Ithel Davies, a cheir yn y gyfrol hefyd ychydig o hanes y bardd gan J Breese Davies. Cyfeiriai Baldwyn ato'i hun wrth yr enw hyfryd 'bugail y llus', ac addas felly mai 'bardd yr haf' a ysgrifennodd y cyflwyniad i'r gyfrol – roedd R Williams Parry yn cyd-astudio gyda Baldwyn ym Mangor. Cyfrol Goffa yw 'Breuddwydion Mebyd' oherwydd bu Baldwyn farw cyn cyrraedd ei ddeg ar hugain. Gwyddai fy Nhaid y pennill ar ei gof, a gweddill y gerdd hefyd decini. Gydag amser daeth y pennill yn rhan o'm cof innau, wrth imi fodio'r llyfr llofnodion, a darllen ei gynnwys:

> "Crwydrodd y Gwanwyn hyd fin y nant
> Gan alw o tan bob pren,
> Ac ôl ei gamre'n croesi'r lli
> Ar ambell i garreg wen."
>
> *J Baldwyn Jones (1889 – 1918)*

# Llyfr cyn-breswylydd Machynlleth wedi ei gyhoeddi!

Bu Peter Dobson yn byw ym Machynlleth am dros ugain mlynedd yn gweithio fel ffotograffydd proffesiynol o dan yr enw "Amber Visual". Er mwyn ychwanegu at ei incwm, bu hefyd yn gweithio fel postmon am bump o'r blynyddoedd hynny. Ynghyd â'i ffotograffiaeth ac wrth weithio ei lwybrau post rhwng Dinas Mawddwy, Cemaes, Mallwyd, Aberangell a Chorris, daeth Peter i adnabod llawer o drigolion Dyffryn Dyfi.

Mae llyfr Peter, 'Catchlight', yn rhychwantu'r hanner can mlynedd ers iddo dderbyn ei gamera cyntaf ac mae'n edrych ar sut mae ffotograffiaeth wedi esblygu o gamerâu ffilm i ffotograffiaeth ddigidol, graffeg gyfrifiadurol a gwaith 3D. Dengys profiad eang Peter am y pwnc drwy gasgliad gafaelgar o hyd at 200 o ffotograffau du-a-gwyn a lliw, gan gynnwys celf gain a phroffesiynol, prosiectau a lluniau personol sydd yn rhychwantu tri chyfandir.




Cyfunir y lluniau gyda naratif sydd yn cynnwys straeon, awgrymiadau ffotograffiaeth a manylion am ei waith ym Machynlleth ac yng Nghymru gan gynnwys priodasau, portreadau ynghyd â gwaith masnachol a hysbysebol i gwmnïau megis Holgates, Cyngor Crefft Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, CADW a llawer mwy. Bu hefyd yn darparu lluniau a straeon ar gyfer papurau lleol megis y *Blewyn Glas*.

Yn y llyfr, trafoda Peter am yr ochr celfyddyd gain o'i fusnes a fu fel canlyniad yn arwain at ddwy arddangosfa, gomisiynwyd un ohonynt, 'Blwyddyn a Diwrnod' gan Yr Eisteddfod Genedlaethol a chafwyd y llall, 'Celtic Inspirations', ei noddi gan Kentmere Photographic. Roedd Peter wedi plesio yn fawr iawn pan gafodd ei ddewis fel enillydd yn yr adran ffotograffiaeth yn yr Eisteddfod yn 1981.

Mae 'Catchlight' hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth ynglŷn â'r Tywysog Madog ab Owain Gwynedd a'i fordeithiau o Gymru i'r UDA yn 1170 a 1171A.D., a ysbrydolodd Peter i deithio dramor ar gyfer ymchwil pellach a thynnu lluniau, cyn penderfynu ail-leoli yno'n barhaol. Gweithiodd Peter ym myd teledu ac i gontractwr milwrol yn yr UDA cyn dechrau busnes ei hun o'r enw 'Artful Dobson Photography'. Mae e'n byw yn Columbus, Georgia ac yn meddwl dylai'r ddinas gael ei galw'n Dinas Madog neu hyd yn oed Madogville!

Mae'r llyfr difyr yma yn ddarlleniad da i unrhyw un sydd â chariad at ffotograffiaeth, o selogion i weithwyr proffesiynol ac unrhyw berson sydd yn ystyried proffesiwn creu delweddau. Mae'r llyfr ar gael drwy Amazon UK mewn fformatau printiedig a Kindle. Chwiliwch am Catchlight gan Peter G. Dobson neu dilynwch y ddolen ganlynol: https://www.amazon.co.uk/Catchlight-Peter-G-Dobson/dp/1731064268






# Helpwyr Bach y Blewyn Glas



Deian Rhys a'i frws paent yn helpu yn Nantygaseg dros y 'Cyfnod Clo'



Siôn Einion yn brysur yn lapio gwlân i'r cneifwyr yn Nantgaseg


## Hysbysebwch yn y Blewyn Glas!

**Prisiau hysbysebu:**
Hyd at ⅛ o dudalen - £10 | Hyd at ¼ tudalen - £20
Hyd at ½ tudalen - £40 | Hyd at dudalen gyfan - £80


Anfonwch eich hysbyseb i:
**papurblewynglas@gmail.com**

Amcangyfrifir fod dros 5,000 o bobl yn darllen y Blewyn Glas yn fisol. Cyfle gwych ichi gyrraedd cynulleidfa newydd mewn ardal eang. Gan fod y rhifynnau'n ddigidol ar y funud mae'n ffordd effeithiol o hyrwyddo eich busnes ar-lein oherwydd gallwn gynnwys dolen i'ch gwefan fel rhan o'r hysbyseb





## Gerddi'n agor ar gyfer Y Cynllun Gerddi Cenedlaethol



Caebardd



Moel-y-Gwelltyn Ucha

Gallwn agor ein gerddi yng Nghymru unwaith eto! A gallwch chi fwynhau'r gerddi hyfryd fydd ar agor ar gyfer y Cynllun Gerddi Cenedlaethol. Bydd yr holl arian a gesglir yn mynd i ymgyrch yr elusen, sef "Help Support Our Nurses" gan wneud gwahaniaeth i nyrsys ar y rheng flaen. "Synnais i mai'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol ydy cyfrannwr unigol mwyaf Marie Curie a'i fod wedi rhoi bron i £10 miliwn i'r elusen dros 25 mlynedd. Mae eu cymorth di-dor yn gwneud cymaint o wahaniaeth i mi a'r holl Nyrsys Marie Curie sydd ar y rheng flaen yn ystod argyfwng firws corona, wrth i ni barhau i ddarparu gofal a chefnogaeth arbenigol i bobl ar derfyn bywyd." -Tracy McWilliams, Nyrs Marie Curie.

Er mwyn diogelu ein perchnogion gerddi, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr ac i gydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth, bydd y gerddi'n agor drwy system lle bydd rhaid prynu tocynnau ymlaen llaw ar gyfer amser penodol yn yr ardd ddewisedig. Rhaid prynu'r tocynnau drwy wefan y Cynllun Gerddi Cenedlaethol https://ngs.org.uk/product-category/garden-tickets/wales .Bydd nifer yr ymwelwyr gaiff ymweld ar amser penodol yn amrywio o un gardd i'r llall, yn dibynnu ar eu maint. Gellir gweld y manylion perthnasol i gyd dan gofnod yr ardd dan sylw ar y wefan.

Mae'r gerddi fydd ar agor ym mis Awst yn cynnwys Caebardd yng Nghegidfa a'i golygfeydd gwych o gefn gwlad Maldwyn, gardd fach dlws Moel-y-Gwelltyn Ucha yn Llansilin a gerddi crand Garthmyl Hall. Gellir cael mwy o wybodaeth am y gerddi hyn ac eraill ar ein gwefan https://ngs.org.uk/ .Bydd tocynnau ar gael 5-10 diwrnod cyn agorir yr ardd a gellir eu prynu o'n siop ar lein https://ngs.org.uk/product-category/garden-tickets/wales/ . Mae'n werth bwrw golwg ar y wefan yn rheolaidd gan fod tocynnau newydd yn cael eu rhyddhau bob dydd Llun.

*Helen Anthony*
*Swyddog Cyhoeddusrwydd*
*Cynllun Gerddi Cenedlaethol*
*Gogledd Powys*
*T: 01686 941795/07986 061051*
*E: helen.anthony@ngs.org.uk*

## Pennal

**Croeso**
Croeso cynnes iawn i'r rhai sydd wedi ymgartrefu yn yr ardal yn ddiweddar sef Helen Kidd a'i theulu wedi dychwelyd i Bennal ac yn byw yn Trellywel; ac yna Chris a Sophie sydd wedi symud i fyw i 1 Tegfryn, Cwrt. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Sioe Pennal**
'Dathlu Cefn Gwlad'
Gan na fydd sioe yn anffodus yr haf yma penderfynwyd mynd am syniad gwahanol lle gall unrhyw un gyfrannu lluniau o gynnyrch neu anifeiliaid neu arddangosfa o amrywiaeth o bethau dan y teitl 'Dathlu Cefn Gwlad'. Mae'r testun yn agored a does dim beirniadu na gwobrau dwi'n ofni ond cyfle i fod yn rhan o'r cyfan. I wneud hyn bydd angen postio lluniau ar dudalen gweplyfr y sioe, ac mae gwahanol adrannau i gystadlu ynddynt bob dydd am wythnos cyn y sioe. Gweler y poster isod am fanylion y cystadlu.




## Dinas Mawddwy

Mrs Gwyneth Jones, Lawnt y Plas 01650 531270 /
gwynethjones442@btinternet.com

**Graddio**
Derbyniodd Caeo Harri Hughes, Bronhaul, radd Meistr mewn Peirianneg Electroneg MEng gydag Anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd yn ddiweddar. Dan yr amgylchiadau, ni fydd y seremoni graddio yn digwydd tan 2021 i gael llun ohono'n derbyn y radd. Mae Harri wedi cael swydd i ddechrau ym mis Hydref gyda Siemens yn Chippenham yn gweithio ar ddatblygu systemau trydanol ar gyfer trenau. Dymuniadau gorau iti, Harri.

# Gwerthu Bonny

**Yn 1954, bu i Dennis Bennett Jones, Garthowen gynt, roi hysbyseb yn y 'County Times' fod ganddo ast i'w gwerthu. Gan fod dulliau cyfathrebu bryd hynny yn brin, fe gysylltodd prynwr â Dennis trwy anfon y penillion yma ato i fynegi ei ddiddordeb mewn prynu Bonny.**

## 'Eisiau Ci'

O ddarllen yn y 'County'
Ar ôl bod yn y dre;
Rwy'n gweld fod gast i'w gwerthu
Yn Pwlliwrch onid-e.

Rwyf eisiau ci o ddifri
I nôl y buchod brith
Lle gwlychu'm traed bob bore
Wrth gerdded drwy y gwlith.

Teg yw i mi fel cwsmer
Cael gwybod faint yw'r pris
Wel gyr yn ôl fy nghyfaill
Ar unwaith *'If you please'*.

Rhag ofn nad wyt yn Gymro
Fel hogyn neu yn ŵr,
Gwell imi droi i'r Saesneg
Er mwyn cael bod yn siŵr.

*I noticed in the paper*
*You've got a bitch to sell*
*I wonder is she working*
*It's very hard to tell.*

*I want a dog in earnest*
*To fetch the cows for me*
*I'm getting old and lazy*
*And cannot walk you see.*

*So bring her down to-morrow*
*Inside the Van with thee;*
*I'll pay you down in silver*
*but bring the guarantee.*

*I then can start to whistle*
*And get the cows in quick*
*But if she fails to listen*
*By dam she'll have the stick.*

*J R Jones*

**Ar ôl i Mr J R Jones gael yr ast a'r dreial, fe ysgrifennodd yn ôl at Dennis B. Jones i adael iddo wybod y sefyllfa gyda Bonny.**

## 'Cân i Bonny'

(Gair bychan i'ch hysbysu)

Gair bychan i'ch hysbysu
Mewn cân sydd lawn o swyn
Mae Bonny wedi cyrredd
A'r mwsil am ei thrwyn.

Swil ydyw braidd ar brydiau
Wrth imi godi'm llais;
Run modd â merch y mynydd
Wrth ddechrau caru Sais.

Mae ganddi lygad siriol
Ond dannedd fel y ddraig
A chynffon drilliw droellog
Fel pluen het fy ngwraig.

Rhaid imi ddweud amdani
Yn wir mae'n ast fach dlos
A gwych am hela'r gwartheg
O'r werglodd ar fin nos.

Fe deimla gryn wahaniaeth
Fel hyn o dro i dro;
Rôl dod i lawr o'r bryniau
I'r hyfryd hafren fro.

Gobeithiaf y cewch newid
Y *cheque* yn swyddfa'r swanc
Rwy'n ofni nad oes gennyf
Fawr gyfrif yn y banc.

Ei hanfon wnaf fodd bynnag
Mewn amlen wen i chwi
Fy enw'n eglur arni
Sef J R Jones, M.T.

Ceir heddiw lu o ddynion
Heb fawr o sail i'w swyn;
Mae rhai yn bur dwyllodrus
A'r lleill yn byw ar ddwyn.

Ag felly gyrrwch linell
Yn ôl i Shion ar hast
Er mwyn i mi gael gwybod
A gawsoch bres yr ast.

Os wyt yn ŵr bonheddig
Rho lwc fach i'r hen frawd
Nid yw ond gwael bererin
Mewn cyflwr ddigon tlawd.

Hwyl fawr i chwi gyfeillion
Hir oes heb unrhyw bla
Rwy'n tewi gan ddywedyd
Yn iaith fy mam, Nos Da.

Yr eiddoch yn gywir,
*J R Jones*
*Middle Trehelyg*
*Y Trallwng*

## Aberhosan

Mrs Eryl Evans, Pen-y-glôg
01654 702033 penyglog@gmail.com

Dyma ni ar drothwy be fyddai fel arfer wedi bod yn gyfnod prysur o fwynhau ystod eang o weithgareddau ar draws Cymru yn ystod yr haf. Yn sicr, fe fyddai nifer ohonom wedi ymweld â'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron neu wedi'u gwylio yn glyd yn ein cartrefi. A chanslo ein sioe fach sbesial ni'n hunain yma yn Aberhosan fu'r hanes hefyd. Mi fydd yn haf gwahanol eleni yn sicr ddigon. Cofion atoch i gyd a chofiwch anfon unrhyw newyddion neu luniau i mi erbyn ein rhifyn nesaf mis Medi.

**Gwellhad Buan**
I Glyn, Glyn Madian sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Bronglais ond adre yn gwella yn dda erbyn hyn. Cofion at Edwina hefyd. I Jinnie, Fedwfaen sydd hefyd wedi treulio cyfnod ym Mronglais ond sydd erbyn hyn wedi dychwelyd i Uned Twymyn, Ysbyty Machynlleth. Anfonwn ein cofion cynnes atoch ac i bawb arall sy' ddim wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**
I Myrfyn ac Ethelwen, Frondeg ar ddod yn hen daid a nain unwaith eto. Ganed mab i Hywel a Rachel (Llundain) sef mab a merch yng nghyfraith i Elinor, Braichithel gynt - Emlyn George, brawd bach i Carwyn. Dwi'n siŵr eich bod wrth eich boddau. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd fel teulu.

**Cydymdeimlad**
Ar y 25ain o Fai, bu farw Delyth Bebb Coleman. Er ei bod yn byw yn yr Alban ers blynyddoedd lawer, treuliodd ei blynyddoedd cynnar yn Llwyngronfa. Yr oedd yn derbyn *Y Blewyn Glas* yn fisol ac edrychai ymlaen yn fawr at gael darllen hanes yr ardal ac fe fyddai hefyd yn hoff o ddod yn ôl i fynychu Sioe Aberhosan. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu a ffrindiau i gyd.

**Sioe ddigidol Aberhosan 2020**
Er bod Sioe Aberhosan yn ei ffordd arferol wedi'i chanslo eleni, braf yw cael cyhoeddi bod y pwyllgor wedi penderfynu cynnal Sioe ddigidol eleni. Bydd yr holl wybodaeth a chystadlaethau i'w gweld ar ein tudalen Facebook yn fuan. Mae'r cystadlaethau'n agored i bawb o fewn yr oedran briodol ac yn ychydig o hwyl i'r gymuned gyfan. Cadwch lygad allan am gystadleuaeth at ddant pawb!

<u>Cystadlaethau Garddwriaeth Sioe Aberhosan 2020</u>
Beirniad: Heledd Siôn
*(Y lluniau i gyd i fod o ardd a chynnyrch yr ymgeisydd yn ystod 2020)*

- Yr Ardd Lysiau (hyd at 4 llun yn dangos eich gardd lysiau)
- Border Blodeuog (hyd at 4 llun yn dangos border o flodau)
- Basged Grog (un llun)
- Twb yn ei flodau (un llun, unrhyw fath o dwb)
- Basged o Lysiau wedi eu cynaeafu (un llun)
- Prosiect yn ystod y clo mawr (2 lun 'un cyn ac un ar ôl' yn dangos rhyw ddatblygiad newydd yn yr ardd e.e. llwybr, patio, gwely llysiau, cwt, ayyb)
- Gosodiad blodau ar y thema 'enfys' (un llun)

Manylion sut i gystadlu ar dudalen Facebook Sioe Aberhosan

**Y Ganolfan**
Dyma restr o enillwyr Ebrill i Awst Clwb Cant y Ganolfan, Aberhosan:


<u>Ebrill 2020</u>
£20 – Glyn Jones, Glynmadian
£15 – Carrie Daniel, Abergwydol
£10 – Meirion Jones, Nantyfyda
£5 – Owain Lewis, Erwporthor

<u>Mai 2020</u>
£20 – Iwan Evans, Cleiriau
£15 – Ieuan a Mair Jones, Maesnewydd
£10 – Alwena Price, Hafod y Ddol
£5 – Teulu Rhiwgam

<u>Mehefin 2020</u>
£20 – Huw Davies, 109 Bryn y Gog
£15 – Awela Jones, Cesail y Bryn
£10 – Audrey Jones, Barhedyn
£5 – Alex Roberts, Murmur y Nant

<u>Gorffennaf 2020</u>
£20 – Angharad Lewis, Bacheiddon
£15 – Angharad Mair c/o Glynmadian
£15 – Lynwen Emslie c/o Penyglog
£5 – Gwilym Hughes, Y Fedw

<u>Awst 2020</u>
£20 – Geraint Jones, Barhedyn
£15 – Ieuan a Mair Jones, Maesnewydd
£10 – Margaret Wilson, Langley
£5 – Audrey Jones, Barhedyn.



## Cwis Chwaraeon

**Gyda'r byd chwaraeon yn dal i fod yn dawel, beth am gwis bach arall i basio pum munud? Atebion ar y dudalen ôl.**

1. Ble fydd Gemau Olympaidd 2028 yn cael eu cynnal?
2. Pa faes pêl-droed yw'r uchaf yn Lloegr?
3. Faint oedd oed George Foreman pan ddaeth yn bencampwr bocsio pwysau trwm hynaf mewn hanes?
4. Beth yw gwerth pwyntiau'r bêl pinc mewn gêm snwcer?
5. Beth yw ffug enw bocsio Floyd Mayweather?
6. Pa wlad ymunodd gyda phencampwriaeth y pum gwlad yn 2000 i'w gwneud yn chew gwlad?
7. Beth mae'r llythrennau VAR yn olygu?
8. Ym mha Gemau Olympaidd yr haf wnaeth 28 o wledydd Affrica wrthod cymryd rhan ynddo?
9. Pwy sy'n dal record y byd o 43.03 eiliad am ras 400m i ddynion?
10. Pa geffyl enillodd y 'Grand National' yn 1994?



## Commins Coch

Nia Wyn, Chwedrws (Gelliau)
07988696755
chwedrws@btinternet.com

**Dathlu**
Pob hwyl i Siôn Aeron, Tyn y Cae gyda'r dathlu wrth iddo gyrraedd oed arbennig yn ystod y mis. Dyma englynion a sgwennwyd iddo gan Cyril Jones.

**'Siôn Aeron yn Ddeugain'**
Ein cosi o hyd wna'i antics o, hyd ei bwrs
gyda bois Sir Benfro,
neu ar frys 'fo Wil o'r fro'n
hel ei bac, fel y bico.

Ben Dant sy' gartre blantos; sŵn a hwyl
Casi a Now yw'r hwyrnos,
a heddiw'n ddeugain-ddiddos,
ceidw le i'w Leucu dlos.
***Cyril Jones***

**Dechrau'r Ysgol**
Pob dymuniad da i Casi Wyn, Tyn y Cae ac Ivy, Gwalia - bydd y ddwy yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf ym mis Medi. Rwy'n siŵr y bydd y ddwy wrth eu bodd.

Hefyd, dymuniadau gorau i Mabon Sion, Chwedrws, fydd yn dechrau ar Gampws Uwchradd Ysgol Bro Hyddgen yr un pryd. Pob hwyl i chi'ch tri.

# Cip olwg tu mewn i rifyn...

## Gorffennaf 1980

*Dyma'r llun oedd o dan bentref Penegoes yn y rhifyn yma. Diddorol iawn oedd y digwyddiad dwi'n siŵr a braf yw gweld y diweddar Wyn, Brynclygo yn y cefn (ar bwys y tractor) ac wrth gwrs, y diweddar Mr Emlyn Tanner yr ail o'r dde yn y blaen.*



**Merlota**
Nos Sadwrn a bore Sul y 5ed a'r 6ed o Orffennaf gwelwyd golygfa bur ddieithr yn Nyffryn Dyfi. Tua dwsin neu fwy o ferched yn marchogaeth ceffylau. Yr oedd y marched wedi dod yr holl ffordd o Benrhyncoch, dros Bumlumon i Benegoes ar y dydd Sadwrn ac wedi aros noson yn Brynclygo cyn mynd nôl i Benrhyncoch ar y Sul. Eu harweinydd a pherchennog y ceffylau yw Mr Emlyn Tanner, gynt o Abercegir, ond sydd yn ffermio yn awr ym Mhenrhyncoch.

## Gorffennaf 1990

*Dyma gip ar erthygl oedd o dan bentref Glantwymyn yn y rhifyn yma. Faint ohonoch sy'n nabod rhai o'r plant yn y llun, sydd â phlant eu hunain erbyn hyn.*



**Urdd Sant Ioan Bro Ddyfi**
Bu cyfarfod arbennig i chwaer arbennig nos Iau ddiwethaf pan ddaeth plant, rhieni a swyddogion Adran Bro Ddyfi o Urdd Sant Ioan ynghyd i Gapel Nebo. Cyflwynwyd rhodd arbennig iddi gan Oswald Davies yr Arolygwr, a'r chwaer Margaret Hughes a'r meddyg Ruth Hughes, ar ran plant a swyddogion yr Adran. Cyflwynwyd blodau i'r chwaer Edna gan yr holl blant, a chafwyd gair o ddiolch gan Siân Corfield a Venessa Brooks am 32 o flynyddoedd o wasanaeth. Roedd y chwaer Sara Howells sef prif lywydd Sant Ioan ym Mhowys yn bresennol yn ogystal â'r Rheithor Emyr Wyn Rowlands, ac fe draddodwyd y fendith gan y Parch Gwynn ap Gwilym. Cludwyd croes Sant Ioan gan y chwiorydd Lilian Williams, Elisabeth Evans a Blodwen Jarvis.

# Trefn Newydd i arlwy 'Clwb Cylch'

Yn ystod y mis diwethaf, mae Mudiad Meithrin wedi cyfrannu at weithgarwch Cymraeg yn y cartref trwy ddarparu sesiynau agored dan faner 'Clwb Cylch' (#ClwbCylch) i blant oedran Cylch a'u rhieni trwy lwyfannau digidol – gyda phwyslais penodol ar blant o deuluoedd ble na siaredir y Gymraeg yn y cartref.

Cynhaliwyd sesiwn byw bob bore am 10.00 wedi'i seilio ar brofiad 'Amser Cylch' yn y Cylch Meithrin arferol gydag arweinydd Cylch Meithrin profiadol, gan ddefnyddio cynnwys o gynllun trochi iaith Mudiad Meithrin, Croesi'r Bont a chynllun hyfforddiant Mudiad Meithrin, Academi.

Pleser yw cyhoeddi y bydd sesiynau Clwb Cylch yn parhau hyd at ddiwedd mis Awst, gan ddarlledu cyfuniad o sesiynau newydd sbon, ailddarllediad o ambell sesiwn Clwb Cylch blaenorol, detholiad o fideos gan staff cynllun 'Cymraeg i Blant', yn ogystal â fideos newydd a ddarperir gan staff Arweinyddion Ti a Fi Teithiol.

Pwrpas yr arlwy hwn yw cefnogi teuluoedd a diddanu plant mewn modd agored a deinamig gan ddarparu cefnogaeth ymarferol i rieni di-Gymraeg.

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

*"Nod 'Clwb Cylch' yw ceisio ail-greu peth o hwyl a chynnwrf Cylch Meithrin ar gyfer plant sydd naill ai'n colli allan ar ddarpariaeth ar y funud neu sy'n paratoi at fynd i'r Cylch maes o law. Bydd hyn hefyd yn cyfoethogi arlwy presennol 'Cymraeg i Blant' sydd wedi ei anelu at rieni a gofalwyr wrth iddynt gyflwyno'r Gymraeg i'w plant".*

Mae modd gweld sesiynau Clwb Cylch, Cymraeg i Blant, a Ti a Fi Teithiol ar dudalen Facebook Mudiad Meithrin pob dydd am 10.00 y bore. Bydd yr holl sesiynau i'w gweld ar blatfformau digidol y Mudiad (Facebook/MudiadMeithrin, trydar@MudiadMeithrin) yn ogystal ag ar adran newydd ar wefan y Mudiad – www.meithrin.cymru/cymraegadre/

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

# Edrych Tua'r Gorwel

'Dyw ysgol heb blant yn ddim ond cragen dawel â'i hochrau'n gwegian dan straen y llonyddwch.

'Dyw ysgol heb blant yn ddim ond llong heb ei morwyr a'i thaith yn llonydd ar y creigiau.

Canodd gloch yr ysgol am y tro olaf ddiwedd mis Mawrth a phoen anghysurus yn llechu wrth gysidro na fydd y gloch honno'n debygol o ganu eto am sawl bore i ddod.

Roedd y coridorau'n llonydd a thawelwch y cae chwarae yn annaturiol o wag. Ond, er hyn, fe agorwyd y drysau'n ddyddiol i deuluoedd y gweithwyr allweddol - nid i dderbyn addysg ffurfiol fel y cyfryw - ond i geisio gwenu a mwynhau ac i anghofio am ansicrwydd y môr mawr y tu allan. Roedd rhai yma bob diwrnod ac eraill ddim ond ambell waith; ond bu llif cyson o athrawon, cynorthwywyr a glanhawyr wrthi'n ddiwyd yn cadw'r rhod i droi.

I'r gweddill, daeth bwrdd y gegin yn fwrdd i ddysgu neu'r stafell wely'n stafell ddosbarth gyda mam neu dad yn ceisio camu i'r adwy i dawelu'r dyfroedd. Newidiodd swydd ddisgrifiad athrawon dros nos gan baratoi gwaith yn ein cartrefi'n hunain a'i yrru i aelwydydd y plant yn feunyddiol. Rhaid oedd ateb cwestiynau dros y we yn hytrach na galw am gwestiwn gan y fraich yn cyhwfan yn wyllt o'n blaenau. Aeth y dyddiau'n wythnosau a'r wythnosau'n fisoedd wrth i rywun ddechrau amau, a phoeni, na fydd y gloch yn canu eto tan fis Medi.

Ond, fe ddaeth yr alwad hir ddisgwyliedig i agor ein drysau'n llawn unwaith eto ddiwedd fis Mehefin. Roedd yr awdurdodau'n awyddus i bob disgybl gael y cyfle i ail ymweld â'u hysgol a gweld eu ffrindiau am gyfnod cyn yr haf ond gan sicrhau bod y canllawiau i gadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn.

Dim ond un grŵp penodol bob dydd, bwrdd i bob plentyn, amser chwarae a chinio gwahanol i bob dosbarth, traean yn unig o blant ar y tro. Roedd rhaid gwagio'r ystafelloedd o'r deunyddiau cysurus, yr adnoddau adnabyddus gan gadw'r angenrheidiol yn unig. Roedd rhaid wrth gynllunio manwl i lywio'r llong drwy ddyfroedd mor newydd.

Do, fe ddaeth llif o gychod yn ôl i borthladd Bro Hyddgen, ac er mor braf oedd gweld rhai o'r morwyr wrth eu gwaith am gyfnod, roedd hi'n bell o'r miri a'r mawredd arferol. Daeth y flwyddyn i stop mor sydyn a'r gwaith o ail gychwyn yn her - rhyw baratoad o bosib i'r hyn sydd i ddod. Mawr yw ein diolch i'r disgyblion, y staff a'r rhieni am eich amynedd a'ch cefnogaeth ar hyd y daith.

'Dyw ysgol heb blant yn ddim ond ynys mewn dilyw, ac er mor niwlog yw'r llwybr o'n blaenau, er mor fas yw'r distyll o dan y don, bydd yr hwyl yn siŵr o godi unwaith eto mor frwd ag erioed a'r llong yn cychwyn eildro ar ei thaith tua'r gorwel.

# Dod i 'nabod ...

## CARYS JONES, MAESTERRAN.

**Ysgrifenyddes y Blewyn Glas ers dros ddeng mlynedd.**



**Enw: Carys Jones**
**Ysgrifenyddes y Blewyn Glas ers dros ddeng mlynedd**

**Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?**
Wel, gafon ni noson gwisg ffansi o'r 60au gyda Chôr Gore Glas flynyddoedd nôl oedd yn lot fawr o hwyl, felly ddeda i'r 60au!

**Beth fyddai dy benwythnos perffaith?**
Pryd o fwyd gyda theulu neu ffrindiau, cwmni da sy'n gwneud penwythnos da! S'dim rhaid mynd yn bell!

**Oes gen ti unrhyw arferion drwg?**
Dim fi sy'n deud hyn, ond mae'n debyg bo fi'n clirio'r bwrdd bwyd cyn i bawb orffen!!

**Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.**
Mi ges i fy magu drws nesa i Tyn y Ddol, Llanfihangel y Pennant, cartref Mary Jones nath gerdded i'r Bala.

**Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?**
Dwi'n berson reit bositif, cwpan hanner llawn dim hanner gwag, felly dwi'm yn gweld lot o bwynt difaru dim byd!

**Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?**
Dwi'n gweithio fel Swyddog Marchnata i Mudiad Meithrin, felly wedi bod yn gweithio o adref trwy'r cyfnod clo - sydd gyda'i heria'! Edrych ymlaen at bryd fyddwn yn gallu mynd nôl i'r swyddfa.

Un o ferched Meirionnydd ydy Carys sydd wedi croesi'r afon i fwynhau Mwynder Maldwyn. Rydym i gyd yn ddyledus iddi am ei gwaith caled fel Ysgrifenyddes y Papur. Mae Carys wedi bod yn ysgrifenyddes sawl mudiad/cymdeithas dros y blynyddoedd a wastad yn drefnus a chydwybodol. A sôn am fynd nôl i'r 60au, mae yna luniau o'r parti nes 'mlaen!

# Blewyn Glas

**Newyddion rhifyn Medi i'w dderbyn erbyn dydd Sul, 12fed o Fedi os gwelwch yn dda.**

# Rheilffordd Corris



Mae'r gwaith adeiladu ar yr injan ager newydd, 'Falcon Rhif 10', wedi symud ymlaen yn arwyddocaol diolch i gwmni Alan Keef Cyf. gyda'r gwaith ar y falfiau a'r gêr rhedeg yn mynd yn ei flaen yn dda.

Yn ystod mis Mai, cafodd y simnai fwg, dur, gloyw, ei ffurfio yn Barnshaws Plate and Section Rollers yn Bilston gyda thoriad wedi ei wneud ar y tu blaen fydd yn gweithredu fel baffl tu ôl i ddrws y simnai maes o law.

Cafodd ddysgl y drws hwn ei chynhyrchu ym mis Mehefin gan Purdie Dished Ends o Bradford ac estynodd hyn y cysylltiadau rhwng Gorllewin Swydd Efrog a Chorris gan i losgydd rhif 10 gael ei adeiladu gan Israel Newton. Digwyddodd hyn cyn i Newton ail-leoli i Ardal y Copaon.

Mae'r blwch mwg a'r drws wedi costio dros £1400 i'w cynhyrchu ond bydd adeiladu'r simnai fwg yn gadael i'r llosgydd gael ei symud i weithdy Keef pan mae'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd wedi cael ei gwblhau.

Mewn rhan arall o'r prosiect, mae gwaith ar gynlluniau DGC ar gyfer y tanc cyfrwy wedi bod ar y gweill. Bydd golwg y cab yn debyg i'r rhai gwreiddiol a wnaed gan dair injan 'Falcon' Corris a adeiladwyd ym 1878 ond byddan nhw'n uwch er mwyn cael digon o le i griwiau'r unfed ganrif ar hugain.

Fel arfer, bydd dyddiad dechrau rhif 10 mewn gwasanaeth yn Nyffryn Dulas ac ar adran estynedig y prif linell yn dibynnu ar gyflymder codi arian. Gallwch chi gyfrannu arian ar-lein trwy www.corris.co.uk neu gallwch chi anfon siec (yn daladwy i Rheilffordd Corris) at Peter Guest, 38 Underwood Close, Callow Hill, Redditch, Swydd Gaerwrangon, B97 5YS

*CYHOEDDWYD AR RAN CYMDEITHAS RHEILFFORDD CORRIS GAN: - John Simms, 42 Bluebell Close Taunton, Gwlad y Haf, TA1 3XQ. 01823 323106 simmsj841@gmail.com*

# Helpwyr Bach y Blewyn Glas



Erin Llwyd (merch Catrin, Llannerch Ddyfi gynt) yn brysur yn helpu Mam i olchi dillad.



Now Ynyr yn gwylio'n ofalus er mwyn gwneud yn siŵr bod Dad yn gwneud 'job dde' ar gneifio defaid Gwernbere!



Curig John Breese, Glasfryn Pennal yn helpu i wneud cacen – heb anghofio'r darn gorau ar y diwedd wrth gwrs!



Greta Nel, Tŷ Gwyn yn helpu Mam i wneud cacen at amser te



Silyn Ifan Breese, Glasfryn, Pennal yn helpu i nôl wyau gan yr ieir



Gwilym Pennant, Ystrad Fawr, Talerddig yn helpu Dad i lapio gwlân.

# Fy Hoff Olygfa

## Dyffryn Dyfi

Mae'r cloi mawr wedi'n cyfyngu i'n cartrefi, ac rwyf wedi ystyried sawl gwaith mewn diwrnod pa mor lwcus ydw'i o gael byw mewn ardal mor anhygoel o dlws. Mae edrych allan drwy'r ffenest fel edrych ar dirwedd tegan - loris bach bach Mansel Davies yn mynd tros Bont-ar-Ddyfi, Bysus Lloyd Coaches, ambell gerbyd fferm a threlar yn mynd ag wyn i'r mart a threnau Trafnidiaeth Cymru yn mynd am Aberystwyth a Phwllheli. Yn achlysurol ar ddiwrnod tawel, pan fydd y gwynt o'r cyfeiriad iawn bydd sgrech ambiwlans yn gwibio am Ysbyty Bronglais, a byddaf yn meddwl - tybed pwy sydd ynddi? Gobeithio y cant eu gwella wedi cyrraedd pen eu taith.



Dwi'n byw yn y Cynffyrch, ffermdy fyny uwchlaw pentref Derwenlas. Mae'r olygfa o'r ffalt yn ardderchog, gan ddilyn yr afon Ddyfi o'r Marian Mawr i fyny hyd at Bont-ar-Ddyfi, a Moel-y-Ffridd. Gellir gweld Dolgelynen yn amlwg iawn, ac ar noson braf hyfryd gweld y gwartheg yn dychwelyd i'r borfa yn un llinyn hir. Weithiau byddaf yn clywed Elinor Dolgelynen yn gweiddi fod swper yn barod!

Gellir gweld ffriddoedd Glanfechan, Mynydd Glandulas, a Mynydd Llwyngwern yn y pellter. Gêm gyfarwydd pan ddaw ymwelwyr i'w hannog i ganfod 5 melin wynt yn y tirwedd. Mae Melin Wynt Aberffrydlan ger top y Cilgwyn, Melin Wynt Gymunedol Bro Ddyfi yn hollol amlwg ar Fynydd Glandulas. Mae dwy felin wynt llai wedyn – ac yn olaf melin wynt fach Gorsaf Machynlleth sy'n llythrennol droi fel y gwynt!

Wedyn ymhellach i'r pellter ar ochr chwith y dyffryn mae Pennal—Uchaf, Foel Eirin, Tarren Cadian i gyd yn llechi'n y coed, gyda Mynydd Braich Goch yn y cefndir.

Yn ddiweddar mi es am dro i ben Mynydd Cae Du, gan edrych i lawr ar Cynffyrch a phentref Derwenlas o bersbectif hollol wahanol. Roedd y dyffryn yn edrych yn hollol ddiarth ac anghyfarwydd o ongl arall. Mae hyn siŵr o fod yn wir am fywyd yn gyffredinol, yn enwedig yn ddiweddar!

Wrth edych ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol des ar draws llun o Ddyffryn Dyfi o'r awyr, a meddyliais am eiriau cywydd 'Dyffryn Dyfi' gan R.Gwilym Tilsli.

Y fro deg, hyfryd yw hi,
A heddwch yn nawdd iddi;
O ddialedd a helynt
I'r wenfro hon af ar hynt,
A chael yn ei harddwch hen
Fywyd a gyffry f'awen.

Ddihafal afon Ddyfi,
Hardd yw hynt ei dyfroedd hi,
O heddwch Llanymawddwy
I ddolydd a meysydd mwy……

…I lawr trwy y Dderwen Las;
Eithr môr yn ei threm yw hi,
A rhwyfa fel môr-afon
Yn deg tua chartre'r don.

Fro Ddyfi hardd; a fo hen
Deued i'w dolydd dien,
A chaiff yn ei thegwch hi
Hoen i'w gallon ac eli;
Yma caiff brofi rhamant
Awel a fflur, haul a phlant;
Caiff ym wledda heb loes
O win anian i'w einioes,
A bydd hed cyfareddol
Yn dwyn hud ieuenctid yn ôl.

Os am ddarllen y gerdd /cywydd cyfan – mae ar gael yn y gyfrol Cerddi Powys (gol. Dafydd Morgan Lewis – Gwasg Gomer

*Gwenfair Glyn, Cynffyrch*





**Newyddion rhifyn Medi i'w dderbyn erbyn dydd Sul, 12fed o Fedi os gwelwch yn dda.**

# Cip olwg tu mewn i rifyn…

## Gorffennaf 2000

*Yn adran Ysgol Bro Ddyfi o'r papur fis yma, gwelwyd llun o Rhydian, Caryl, Nerys, Elen, Glyn, Tomos, Richard, Lowri a Mark, sef i'r rheiny ohonoch sy'n cofio, y band 'Fferins'. Roedden nhw wedi dod i'r brig yn Eisteddfod yr Urdd Bro Conwy y flwyddyn honno mewn cystadlaethau i fandiau pop.*



**Ysgol Bro Ddyfi**
Llongyfarchiadau i'r grŵp Ffebrins a gipiodd yr ail wobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar.

## Gorffennaf 2010

*Dyma un o'r straeon oedd ar y dudalen flaen yn y rhifyn yma.*

**Diolch am 40 mlynedd o wasanaeth**
Mewn achlysur arbennig a gynhaliwyd yn ddiwedd yn y Lakeside Golf Club, Garthmyl, cyflwynwyd llun o waith Terence Lambert a siec i Meirion Jones, Drws y Cwm, a thorch o flodau i'w wraig, ar ei ymddeoliad fel clerc i Gyngor Bro Llanbrynmair gan y Cadeirydd presennol, Tomos Pennant Jones, Ystrad Fawr. Bu yn y swydd am dros ddeugain mlynedd a chafwyd cyfarchion barddol gan Hedd Bleddyn a chyfraniadau gan W.J.Davies a David C. Jones. Y clerc Newydd yw Mrs Moira Davies, Gerddi Gleision a threfnwyd y noson gan y cyn-gadeirydd, Mrs Ceris Rees.



## Derwenlas a Glaspwll

Mrs Bethan Ingram, 01654 703468 / bethlli@aol.com

**Penblwyddi Arbennig**
Pen-blwydd hapus iawn i Rhys Lewis, Cefnmaesmor a ddathlodd ei ben-blwydd yn 21ain ar Fehefin 19eg. Hefyd mae Gwenno ei chwaer yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed mis yma. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch. Digon o ddathlu yn eich tŷ chi!

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau mawr i Meinir Dyfi, Hafod y Garreg sydd newydd raddio efo Gradd Dosbarth Cyntaf mewn Mathemateg o Brifysgol Aberystwyth. Fel pawb arall, bydd rhaid aros sbel am seremoni, ond mae'n siŵr y bydd yna gyfle i ddathlu efo teulu a ffrindiau. Da iawn ti.

**Wyres Newydd**
Llongyfarchiadau i Maldwyn a Judith, Pensarn, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach i Haf a Ross sef, Alis Zena Lewis Browning. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

# Nôl i'r 60au

Fe soniodd Carys, Ysgrifenyddes y Blewyn, y byddai wedi hoffi byw yn yr 1960au gan gyfeirio at un o bartïon Côr Gore Glas. Felly dyma ychydig o atgofion o'r parti hwnnw a gynhaliwyd yng Ngwesty Ty'n y Gornel ym mis Chwefror 2007.

Roedd nifer go dda o aelodau'r Côr wedi mynd i gryn drafferth i ganfod gwisgoedd priodol i gyd-fynd â thema'r parti, sef y 60au (a rhai partneriaid digon 'boring' heb drio o gwbl - wnawn ni ddim enwi neb, jyst diolch iddyn nhw am fod yn chauffeurs!). Wrth gwrs, roedd rhai o'r aelodau yn blant y 60au, ac eraill yn arddegwyr (gwyllt?) yn y 60au. Rhai wedyn, fel Carys, heb eu geni! Mae 'na ymadrodd Saesneg, "If you remember the 1960s, you weren't really there" - tybed ai dyna brofiad aelodau hŷn y Côr?!

Wrth edrych ar y lluniau, mae'n amlwg bod y gwisgoedd wedi dod o fannau gwahanol. Rhai wedi rhuthro lawr i'r siop gwisg ffansi yn Aberystwyth, eraill wedi chwilio am fargen ar Ebay, a rhai wedi ffeindio eitemau yng nghypyrddau dillad eu rhieni! Gwelwyd sawl pâr o 'efeilliaid' ar y noson fel y gwelwch yn y lluniau. Noson wych!!



Alun a Magwen – wel maen nhw'n dweud bod 'free love' yn boblogaidd yn y 60au!



Bethan Gwawr a Dylan – SNAP!



Emyr Rhyd Yr Aderyn a Gareth Erw'r Llan – yn amlwg yn rhannu'r un steilydd gwallt.



Ifan a Heulwen, Maescriau



Meleri, Carys a Lydia – wedi gor-neud efo'r lliw gwallt.



Alun a Iola, Tŷ Glanmerin



Edryd a Glenda, Cae Iago



Ac i orffen, llun o gystadleuaeth Mr Wales, circa 1967. Edryd, Gareth, Ifan, Alun, Geraint Mynachdy a Geraint Cefnrhosan.

# Hanes Jenny Jones, Cildydd

## Gan Mary Price, Machynlleth (a gafodd ei magu yng Nghildydd)

Mae i bob Plwyf a Bro ei hanes a'i rhamant ei hunan, ac mor bwysig yw Cof Cenedl. Yn ystod y cyfnod dyrys yma bu cyfle i gerdded llwybrau na wyddwn i ddim amdanynt o gwmpas y dre. Ond cadw o fewn y pellter o 5 milltir.

O fewn rhyw 10 milltir o'r dre mae Bro fy Mebyd, a hanes diddorol tu hwnt am un a fu'n byw yng Nghildydd, flynyddoedd lawer cyn i ni fel teulu symud yno.

Roedd dechrau'r 19G yn flynyddoedd helbulus iawn i Brydain – blynyddoedd Rhyfel maith yr arfordir.

Yr arferiad oedd cynnal cyfarfod ym mhob plwyf i ganfod meibion ifanc a fyddai'n fodlon gwirfoddoli i ymladd 'dros eu gwlad'. Rhoddwyd yr enwau mewn het, a swydd yr Ynad Heddwch lleol oedd codi un enw o'r het.

Ond och a gwae ni fedrai'r llanc ifanc a ddewiswyd wynebu'r fath sialens a bu helynt fawr ymhlith y bechgyn.

Gwirfoddololdd Lewis Gruffydd, Y Pentre', gymryd ei le. Ymhen ychydig ddyddiau roedd ar ei ffordd i'r Bala i ymuno â'r milwyr oedd eu ffordd i Wrecsam ac yna i Ddulyn i dderbyn hyfforddiant yn y grefft o fod yn filwr.

Un bore Sul yn Nulyn, pan oedd adran o'r milwyr Cymraeg yn gorymdeithio i'r gwasanaeth, roedd nifer o edmygwyr yn eu gwylio ac yn eu plith roedd merch ifanc hardd o dras Albanaidd (er dywed eraill mai o dras Wyddelig yr oedd) Merch o'r enw Jenny Drumble. Roedd y ddau wedi edmygu ei gilydd o'r funud honno. Cyn bo hir roedd Jenny a'r milwr ifanc yn gariadon ond gan fod Jenny o dras fonheddig ni fynnai ei theulu ei harddel hi na'r milwr o Gymru.

Cymaint oedd ei chariad at Lewis nes iddi benderfynu ei briodi. Yr adeg honno, o dan rai amgylchiadau, roedd y gwragedd yn gallu dilyn eu gwŷr i faes y gad. Bu'r ddau yn Sbaen a Gwlad Belg a chlwyfwyd ef ddwywaith, y tro olaf ym mrwydr Waterloo.




**Cofeb Jenny Jones wrth giât Eglwys Tal y Llyn**

Jenny fyddai'n gofalu am ymgeleddu'r milwyr clwyfedig a chai ychydig o bres poced trwy olchi dillad rhai o'r swyddogion. Roedd yn cael ei chydnabod fel nyrs garedig.

Yn ystod galw enwau'r milwyr un bore ym Mehefin 1815 sylwodd Jenny nad oedd ei gŵr yn ateb i'w enw. Er holi a chwilio nid oedd hanes ohono.

Felly i ffwrdd â hi gyda'i phlentyn bach ar ei braich i chwilio amdano ymhlith y rhai a glwyfwyd. Ymhen tridiau cafodd hyd iddo - roedd wedi cael ei saethu'n ei ysgwydd . Gyda gofal tyner ei wraig ni fu'n hir cyn gwella. Yn dilyn cyhoeddi heddwch roedd eu bywyd yn haws a ganwyd eu hail blentyn.

Er iddynt ddychwelyd i Loegr doedd ganddynt ddim gwaith nag unman i fyw. Wedi llawer o bendroni ynglŷn â sut a lle y medrai Lewis ennill bywoliaeth a chynnal teulu, penderfynodd droi yn ôl am fro ei febyd a chael gwaith yn Chwarel Corris a chartref yn ffermdy Cildydd, Talyllyn.

Yn ôl y sôn buont yn byw yno'n hapus iawn am rai blynyddoedd a magu pedwar o blant. Ond daeth newyddion trist i ran y teulu pan laddwyd Lewis Gruffydd mewn damwain yn y chwarel.

Ar ôl angladd ei gŵr aeth Jenny i fyw i fwthyn ger y ddau westy ar lan Llyn Mwyngul. Roedd yn gallu ennill ychydig o arian trwy olchi dillad rhai o'r gwesteion. Roedd yn cael ei hystyried yn wraig ddawnus, ddiymhongar a chymwynasgar dros ben. Ystyrid hi yn gryn awdurdod mewn achos o afiechydon ac yn enwedig genedigaethau.

Roedd wedi dysgu siarad Cymraeg a bu'n athrawes mewn ysgol a gynhelid ar lan y llyn.

Anhapus iawn fu ei hail briodas i ŵr o'r enw John Jones. Treuliodd ddiwedd ei hoes mewn tlodi a chaledi. Er ein bod yn gwybod amdani fel Jenny Jones ni anghofiodd am Lewis Gruffydd ac mae amdano fo y byddai'n sôn hyd ddiwedd ei hoes.

Mae dirgelwch ynglŷn â phwy gododd y maen o farmor uwch ei bedd er cof amdani ym mynwent Eglwys Talyllyn. Roedd y cyfaill yn amlwg yn hoff iawn o Jenny Jones!

**Rhai ffeithiau am Jenny Jones**

Yn ôl rhai adroddiadau ei chyfenw oedd Brown a'i bod yn dod yn wreiddiol o'r Alban ond yn ôl cofnodion cyfrifiad 1841 ac 1851 mae'n rhoi ei henw fel Jane Drumble ac iddi gael ei geni yn yr Iwerddon, yn ferch i ffermwr cefnog. Pan briododd hi a John Jones yn 1853, yn ôl y gofrestr priodas cofnodwyd ei henw morwynol fel Jane Drumble a'r man geni fel Iwerddon {Mae'r cofnodion yma yn Swyddfa'r Cofrestrydd yn Nolgellau. Mae cofnodion yma hefyd ar gael ar ficrofilm yn Llundain}

Mae hefyd peth amheuaeth am ei hoed, mae cyfrifiad 1881 yn cofnodi ei bod yn 92 oed ac erbyn hyn yn fethedig ac yn ddall. Ond yn ôl cyfrifiad 1841 mae yn rhoi ei hoed yn 45, wedyn yn 1851 ei roi yn 54 (ar yr adeg yma mi roedd yn gyffredin i roi'r oedran i'r 5 agosaf). Mae yn haws credu iddi roi'r atebion cywir yn 1841 ac 1851, wedyn pan fu farw yn 1884 roedd yn 87 oed.

Mae ei chofeb wrth y giât yn Eglwys Tal y Llyn yn dweud iddi gael ei chodi gan ffrind, mae yn bur debyg i'r gofeb gael ei chodi gan un o'r enw Major Hancock. Byddai Major Hancock yn dod i Dal y Llyn bob blwyddyn ac yn aros yng ngwesty Tyn y Cornel Yn y gwesty mae câs gwydr ac ynddo bysgodyn a ddaliwyd yn y llyn gan Major Hancock.

Ffaith ddiddorol ydi fod Jenny Jones yn hen, hen nain i'r diweddar Barchedig Geraint Parry - cyn weinidog capel Wesle Tywyn.

# Lle Crafa'r Iâr – Marian Rees



**Dal i grafu**

Mae'r iâr wedi bod yn crafu eto. Y tro yma ymysg ei phapurau a rheiny'n dyddio'n ôl **i** ddyddiau ysgol**.** Mae hynny ymhell iawn yn ôl**!** Felly gellir dychmygu be' 'di maint y pentwr. Mae gwiwer yn pentyrru cnau er na fwytith hi mo'u hanner nhw. Rydw innau wedi pentyrru papur. Pa fath, meddech chi? Wel, cofiwch fy mod i'n perthyn i oes pan oedd ysgrifennu llythyr yr unig ffordd i gyfathrebu. Doedd yna ddim hyd yn oed deliffôn mewn cartrefi ac mi fyddai'r postmon yn galw'n aml. Mae'r wiwer ynof i wedi cadw'r llythyron; focsys ar focsys ohonyn nhw, o ddyddiau ysgol, coleg, gwaith yn y de a'r gogledd a thramor. Roedd yna un llond bocs o ohebiaeth 'Dysgu Llydaweg trwy'r post' wedi dychwelyd bob cam efo fi o Lydaw yn 1963! Wedyn roedd myrdd a mwy o gofnodion gwahanol fudiadau y bûm yn ymhél a nhw trwy'r blynyddoedd, rhai'n dal yn berthnasol. Ac ie, wrth gwrs, yr ymgyrchoedd yn erbyn pethau oedd (ac sydd) yn mynd dan fy nghroen, megis ffermydd gwynt ar fynyddoedd Cymru, awyrennau'r fyddin a'u hedfan isel, didrugaredd, cronfa ddŵr arfaethedig yn Nhal-y-llyn, Gwesty a Chanolfan Gynhadledd ar lan y llyn, caffi ar Gader Idris, troi eglwys Tal-y-llyn yn llety hunan-ddarpar, ac mae'n siŵr fod yna ragor... Ond un ymgyrch lwyddiannus yr wyf yn falch iawn ohoni oedd honno i achub Ysbyty Fach Machynlleth a'i throi yn Ganolfan Gofal at wasanaeth yr ardal.

Cynyddodd y papurau a'r toriadau papur newydd o flwyddyn i flwyddyn ... ac yna daeth Cofid 19 a throi yr allwedd yn y clo yn llythrennol. Doedd dim dianc. Dyma'r papur a fi yn mynd ben-ben a'n gilydd. Roedd cip yn ddigon ar ambell beth ond rhaid oedd darllen pob llythyr cyn selio'i dynged, a llawer un yn gweiddi "achub fi!" ar ei ffordd i'r tân yng ngwaelod yr ardd. Ond un peth da a ddeilliodd o'r storm bapur yma oedd darganfod dyddiadau. Dyddiad uwchben toriad o bapur newydd neu lythyr neu gerdyn post yn f'atgoffa pryd y digwyddodd y peth a'r peth. Llenwi'r bylchau ym map bywyd, fel petai, neu uno'r dotiau i greu llun. Mae sawl bocs a drôr yn llawn o hyd ond o leiaf rwy'n gwybod beth sydd ynddyn nhw. Ac efallai y daw yna ddiwrnod dewr yr af i a'r cwbl i waelod yr ardd, neu os na 'wna i, mi 'wna rhywun arall... Hen dro, hefyd, gweld tystion ffyddlon yn troi'n fwg.

**Benjamin Brunt**

Un o Lanbrynmair oedd mam Michael D. Jones, prif ysgogydd y mudo i Batagonia yn 1865. Ond yn rhyfedd iawn, ychydig iawn o neb o Sir Drefaldwyn aeth drosodd i'r Wladfa, er bod llawer wedi mynd i'r Unol Daleithiau. Glowyr a chwarelwyr ac unrhyw beth ond ffermwyr aeth i Batagonia er mai ffarmio byddai raid iddyn nhw wneud ar ôl cyrraedd Dyffryn Camwy. Ond fe wyddom am un aeth drosodd o Faldwyn gyda'r bwriad o amaethu ac a wnaeth enw da iddo'i hun ym myd amaeth draw yna, sef Benjamin Brunt o ardal Trefeglwys, aeth drosodd efo'i wraig, Ann ac wyth o blant yn 1881. Dyfynnaf o lyfr ardderchog Delyth MacDonald, 'Llawlyfr y Wladfa':

*"Yng Nghymru roedd wedi bod yn ffermwr blaengar a llwyddiannus iawn, ond heb obaith o ddod yn berchen ar ei fferm ei hun. Felly, yn 44 oed, ymfudodd i'r Wladfa gydag Ann ac wyth o blant. Cafodd fferm yn ardal Dolafon a'i henwi yn Argoed. Ei ddisgrifiad cyntaf o'r "fferm" honno oedd "diffeithwch enbyd"! Ond ymhen rhai blynyddoedd roedd Brunt yn llwyddo i dyfu gwenith o'r ansawdd uchaf. Enillodd fedalau aur yn Arddangosfa Ryngwladol Paris yn 1880 ac yn Chicago yn 1893, (Ffair Fawr y Byd) gan sicrhau enw da i wenith Chubut".*

Dywed un arall amdano mai ganddo fo yr oedd yr unig berllan yn y Dyffryn am flynyddoedd, a byddai'r gwragedd yn tyrru yno i nôl cyrens cochion, gwynion a duon i wneud tarts at y Nadolig. Plannodd hefyd goed tamarisc addurnol a chysgodol, ac roedd rhaid i'r olchwraig ar ddydd Llun gofio rhoi'r dŵr golchi iddyn nhw. Doedd y Br. Brunt ddim yn credu mewn segurdod. Bu farw yn 1925 ac mae ei fedd taclus iawn ym mynwent Dolafon.

Pan oeddwn i yn y Wladfa yn 1917 ac yn mynd o gwmpas rhai o'r capeli gwledig efo'r Fns. Luned Gonzalez yn y car, yn un o'r capeli bychain cefais fy nghyflwyno i un Br. Brunt oedd yn ddisgynnydd o'r teulu mawr hwnnw. Doedd o erioed wedi cwrdd â neb o'r "hen sir", medde fo, ac roedd o mor falch. Er treigl amser roedd yn golygu cymaint iddo, a daeth deigryn i'w lygad.


**Du a Gwyn**


Ers lladd George Floyd ym Minneapolis, Minnisota, ym mis Mai eleni, yn 46 oed mewn modd cwbl anwaraidd gan blismyn yr Unol Daleithiau mae'r byd wedi bod yn sôn o'r newydd, ac yn gweithredu, yn erbyn gormes y gwyn yn erbyn y du dros y canrifoedd, ac yn arbennig yng nghyd-destun caethwasiaeth. Ac, wrth gwrs, 'dyw ein dwylo ni yng Nghymru ddim yn lân o bell ffordd gan fod arian a wnaed ar gefnau caethweision, yn y diwydiannau siwgr, cotwm a thybaco yn enwedig, wedi llifo yn y gorffennol i goffrau rhai o gyfoethogion ein gwlad gan eu galluogi i fyw yn fras yn eu palasau. Gwelsom ar y cyfryngau rai o'r ymgyrchoedd, megis ym Mryste, sy'n digwydd i "ddryllio'r delwau" (chwedl Bob Owen, Croesor gynt) ymgyrcheodd i ddileu'r cerfluniau a osodwyd ar bedestal mewn mannau cyhoeddus mewn oes llai gwybodus na heddiw. Er enghraifft, dyna i chi gerflun H.M. Stanley yn Ninbych, glodforwyd yn ei ddydd am ymchwilio daearyddiaeth anhysbys canoldir Affrica a dod o hyd i'r David Livingstone "coll", gan ddatgan y frawddeg enwog "David Livingstone, I presume?" Heddiw gwyddom am yr ochr arall i'w yrfa yn hwyluso casglu caethion i'w danfon i America ac India'r Gorllewin dan amodau dychrynllyd iawn, a channoedd yn marw yng nghrombil y llongau. Beth i'w wneud heddiw â ffigurau fel Stanley, ai eu gadael lle maen nhw i wneud i ni gofio a meddwl wrth fynd heibio, ynteu eu symud i amgueddfeydd allan o olwg uniongyrchol y cyhoedd, i fod yn ddalennau hanfodol yn llyfr hanes ein cenedl? Yr olaf ddewiswn i ac mi ddweda wrthoch chi beth arall, fuaswn i ddim yn gwneud cerflun arall o neb a'i godi ar bedestal byth eto achos mae i bob oes, ac i bawb, eu beiau ac yn yr oes yma ni ellir eu cuddio. Fyddai codi cerfluniau ddim ond yn denu mwy o baent coch a baw adar.

Yn bersonol, fu gen i erioed broblem efo lliw croen. Er na welais i neb o liw gwahanol i mi fy hun nes bod yn stiwdent ym Mangor feddyliais i erioed eu bod nhw'n israddol. Pam ddylwn i? Roedden ni wedi canu digon amdanyn nhw yn yr Ysgol Sul, ond rhyw ganu amdanyn nhw fel ffrindiau pell yr oedden ni ac nid fel bodau israddol... Yn nyddiau Bangor roedd Ann Clwyd a finne wrth ein boddau yn mynd i'r gwersylloedd rhyngwladol ym Mhantyfedwen, Borth adeg gwyliau'r haf, lle dysgais i gyntaf ganu "Uzi zikelele Affrica" a phrofi slivovitz Yugoslavia. Doedd fawr ryfedd i mi ddewis mynd, naw mlynedd yn ddiweddarach, ar wasanaeth gwirfoddol (V.S.O.) i Ffiji.

Wedi dychwelyd i Gymru mi gefais y fraint, trwy'r Swyddfa Gymreig, fel yr oedd bryd hynny, i ddehongli Cymru a thywys o gwmpas ystod eang o dramorwyr yn cynnwys tywysogesau o lefydd mor wahanol â Nepal, Japan a Zambia, ac uchel-swyddogion o bob rhan o'r byd, yn undebwyr llafur, addysgwyr a gweinidogion llywodraethau. Roedden nhw'n gwerthfawrogi naturioldeb fy Nghymreictod i a minnau'n deall eu dyheadau hwythau dros eu pobol. "Un ydym ni", meddai'r gân. Mae bywyd gymaint cyfoethocach wrth gofio hynny.â

Hwyl!




# Vera Lynn a Fi

Ebrill yr 28ain 1979. Y Royal Albert Hall, Llundain. Pedair ar ddeg oed. Mam yn edrych i lawr o'r entrychion – golau pinc arnaf i a'r delyn – mor fach ar y llwyfan mawr.

Dwi'n meddwl weithiau mai breuddwyd oedd y cyfan, ond mae gen i'r Rhaglen Swyddogol sy'n datgan fy mod i, Miss Lydia Griffiths, yn rhoi unawd ar y delyn. A dyna'r cysylltiad gyda Vera Lynn – **hi** oedd seren y noson. A seren yn yr ystyr hen ffasiwn go iawn. Nid seren wib ychwaith, ond un a lewyrchodd am bron i ganrif.

Cefais wahoddiad gan Tecwyn Jones a Chôr Meibion Powys i fynd efo nhw i'r Burma Star Reunion yn y Royal Albert Hall a rhoi datganiad ar y delyn. Roedd rhaid paratoi wrth gwrs. Cael defnydd pinc Laura Ashley i neud ffrog arbennig. Miss Alwena Roberts, Telynores Iâl, fy athrawes telyn, yn deud yn syth mai un o ddarnau John Thomas fyddai'n addas felly dyma fynd ati i ddysgu Bugeilo'r Gwenith Gwyn. Yn ôl arfer Miss Roberts, roedd rhaid dysgu'r darn ar y cof (dyma'r athrawes oedd yn mynnu bod yn rhaid gwybod unawd telyn yr Urdd yn berffaith cyn Dolig, heb gopi, cyn cael cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch ym mis Mawrth!). Wedyn trefnu bod Mam a fi yn mynd â'r delyn yn y car i Lundain ac aros efo Anti Siw, chwaer Nain yn Fulham.

Ond roedd un broblem fach, wel reit fawr a dweud y gwir. Roeddwn wedi cofrestru ar gyfer arholiadau'r Orsedd ac eisoes wedi gwneud yr arholiad ymarferol dan arolygaeth Gwenllian Dwyryd mewn festri yn Aberystwyth. Ond roedd yr holl arholiadau ysgrifenedig yn digwydd ar y Sadwrn olaf ym mis Ebrill bob blwyddyn – dim eithriad. Felly dyma cyfnither Mam yn Llundain, Anti Wena, yn trefnu mod i'n cael sefyll yr arholiad yn festri Eglwys yr Annibynwyr, Harrow dan oruchwyliaeth y gweinidog, y Parch Gwylfa Evans. Dyna felly sut treuliais i fore'r cyngerdd a chael sioc gweld bod ymgeisydd arall yno hefyd – ffeindio allan nes ymlaen mae ei enw o yn yr Orsedd oedd Gwilym Wembley!

Wedyn prynhawn o ymarferion yn yr Albert Hall. Teulu Llundain yn dod draw hefyd i grwydro'r neuadd a Kevin fy nghefnder yn rhyfeddu at yr organ ac yn mynd i gael gair efo John Snagge (sylwebydd enwog y Boat Race) sef arweinydd y noson.

Ychydig dwi'n ei gofio am yr unawd. Dydy rhywun ddim yn nerfus yn 14 oed! Ond wna i fyth anghofio Vera Lynn yn canu We'll Meet Again ac yn arwain y canu cynulleidfaol gyda Don Estelle (yr un bach yn *It Ain't Half Hot Mum*). Cyn filwyr Burma yn eu 50au bryd hynny siŵr o fod – a finnau'n 14 oed yn gwybod dim am ddioddefaint hunllefus y dynion hyn yn Burma. Dwi wedi darllen cryn dipyn am ymgyrch Burma erbyn hyn a phwy all anghofio ffilmiau pwerus fel *The Bridge on the River Kwai* a *The Railway Man*? Faint tybed o'r milwyr hynny sy'n dal yn fyw? Maen nhw yn eu 90au erbyn hyn. Dwi wedi meddwl droeon mor lwcus fu Taid Pwllglas – osgoi'r Rhyfel Byd Cyntaf o rai misoedd a rhy hen i'r Ail Ryfel Byd!

Ac yn goron ar y cyfan, ar ddiwedd y cyngerdd rhyw stiward pwysig yn gofyn i Tecwyn Jones, Mrs Briwnant Jones, Gwenan Jones a fi ei ddilyn drwy'r coridorau troellog gefn llwyfan nes dod i ystafell grand gyda chandeliers enfawr yn hongian o'r to. Ac yno cefais fy nghyflwyno i'r Dywysoges Margaret (*"I have a daughter the same age as you and she plays the guitar!"*), yr Arglwydd Mountbatten (cafodd ei ladd ychydig fisoedd yn ddiweddarach) a Vera Lynn ei hun. Roeddwn i'n meddwl ei bod yn hen bryd hynny (wel, mae pawb dros 30 yn hen pan ydych chi'n 14 oed) ond yn hynod o glamerous. Ysgwyd llaw efo hi, a sylwi ar ei hewinedd hir efo lliw oren golau chwaethus arnynt.

A dyna ni, yr antur fawr drosodd. Bu'n benwythnos pwysig i Griffiths arall hefyd – enillodd Terry Griffiths Bencampwriaeth Snwcer y Byd yr un diwrnod! Rydw i'n dal hyd heddiw yn ddiolchgar i Gôr Meibion Powys am y gwahoddiad. Wrth astudio'r Ail Ryfel Byd dros y blynyddoedd gyda phlant blwyddyn 5 a 6 ysgolion Llanbrynmair a Machynlleth, byddem yn gwrando ar We'll Meet Again a byddent yn rhyfeddu o ddeall mod i, Mrs Jones, wedi cwrdd â Vera Lynn! Ie wir, seren a hanner.

**Lydia Jones**






**Archebu a Chasglu**

**Mae gennym wasanaeth newydd!**

**Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Powys yn cyflwyno gwasanaeth archebu a chasglu newydd ar gyfer benthyca llyfrau, fel eich bod yn gallu derbyn llyfrau'n ddiogel tra bod ein llyfrgelloedd yn parhau i fod ar gau oherwydd y cyfyngiadau coronafeirws.**

**Rhowch wybod i ni pa lyfrau ry'ch chi'n hoffi darllen a byddwn yn dewis llyfrau diddorol ar eich cyfer. Byddwn wedyn yn rhoi gwybod i chi pan fyddan nhw'n barod ac yn trefnu apwyntiad fel eich bod yn gallu eu casglu.**

**Gallwch gasglu o lyfrgelloedd Machynlleth, Llanfyllin, Y Drenewydd, Llandrindod, Aberhonddu (y Gaer) ac Ystradgynlais.**

Os nad ydych yn gallu casglu o un o'r canolfannau hyn, rhowch wybod i ni. Byddwn yn gweithio gyda'n gwirfoddolwyr llyfrgell, PAVO a phartneriaid eraill i gael y llyfrau allan i gymunedau lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

I archebu llyfrau o'r llyfrgell ewch i
**cy.powys.gov.uk/archebuachasglullyfrau**
Cysylltwch â gwasanaeth Llyfrgelloedd Powys ar
**01597 827460** neu
**e-bost: llyfrgelloedd@powys.gov.uk**

Powys

# Y Golofn Chwaraeon

Gyda'r tymor pêl-droed proffesiynol wedi ail-ddechrau ers ychydig wythnosau, tawel iawn yw'r byd chwaraeon yn ardal y *Blewyn Glas* yn dal i fod. Ond yn ffodus iawn, mae disgybl blwyddyn 13 Ysgol Bro Hyddgen wedi ysgrifennu'r erthygl hon ar gyfer y rhifyn yma. Diolch i ti Dafydd am lunio'r erthygl yma am un o sêr y dyfodol.

Mae Dafydd, sy'n byw yn Nolfach, yn mynd i astudio Newyddiaduraeth Chwaraeon ym Mhrifysgol De Cymru, Caerdydd ym mis Medi. ac rydym yn gobeithio y bydd yn anfon erthyglau pellach atom o bryd i'w gilydd. Mae o eisoes wedi cael un sgŵp, sef cyfle i gyfweld Ryan Giggs pan ddaeth i Fachynlleth yn gynharach eleni. Mae Dafydd hefyd yn cyfrannu'n gyson i wefan Y CLWB PÊL-DROED (sef clwbpeldroed.org).




## Neco Williams: Tymor o gynnydd i'r Cymro

Ar ôl ffyniant ym mhencampwriaeth Ewrop y tymor diwethaf, yn fuddugol dros Tottenham Hotspur yn y rownd derfynol ym Madrid, her Lerpwl y flwyddyn hon oedd parhau i adfer llwyddiant yn ôl i Anfield. Heb unrhyw amheuaeth, mae carfan Jürgen Klopp wedi cyflawni eu tasg, gan gipio Cwpan Byd y Clybiau a thlws yr Uwch Gynghrair, a hynny am y tro cyntaf ers 1990.

Ymysg yr holl gynnwrf a grëwyd gan Lerpwl y tymor hwn, y darganfyddiad arwyddocaol o safbwynt cefnogwyr Cymru yw Neco Williams. Mae'r amddiffynnwr amryddawn o Wrecsam wedi cael cyfleoedd i greu argraff, gan chwarae ei gêm gyntaf i dîm cyntaf Lerpwl yng Nghwpan Carabao yn erbyn Arsenal ym mis Hydref. Ar ôl perfformiad addawol, daeth rhagor o funudau ar y cae i Williams yng ngemau Cwpan FA yn erbyn Amwythig ac Everton, lle bu i Williams ddangos ei ddawn unwaith eto.

Nid yn unig y bu Williams greu argraff ar hyfforddwyr a chefnogwyr Lerpwl, ond hefyd ar Ryan Giggs, rheolwr tîm rhyngwladol Cymru. Dywedodd Giggs wrth BBC Cymru'n Chwefror fod Williams wedi gorfodi'i enw'i hun i ystyriaeth am gap rhyngwladol: "Rydym yn edrych ar Neco oherwydd ei fod yn chwarae i dîm dawnus ar hyn o bryd," dywedodd Giggs.

Ychwanegodd rheolwr Cymru, "Pan fydd chwaraewr yn ymddangos mewn clwb mor fawr â Lerpwl, mae'n amlygu i lygad y cyhoedd. Mae'n chwaraewr gwych, yn dal yn ifanc ac yn dal i ddysgu, ond mae'r egni a'r ansawdd y mae wedi'i ddangos pan mae wedi camu i fyny i'r tîm cyntaf wedi bod yn dda iawn, felly mae'n gyffrous."

Roedd hi'n edrych yn debygol y byddai Williams yn cael cyfle i chwarae yn y gemau paratoi cyn Ewro 2020 yn erbyn Awstria a'r UDA, cyn i bandemig COVID-19 atal y tymor a bellach, cynnydd Neco Williams.

Er hyn, mae'r amddiffynnwr wedi dychwelyd i'r cae yn yr wythnosau diwethaf yn dangos yr un addewid a gynhyrfodd y Cymry ar ddechrau'r tymor. Mae Williams yn ddiamheuol wedi elwa o'r ffaith fod timau nawr yn cael dod â phum eilydd i'r cae yn hytrach na thri a gyda buddugoliaeth yr Uwch Gynghrair bellach wedi'i gadarnhau, mae'n debygol y bydd Klopp yn sicrhau y bydd Williams yn cronni pum ymddangosiad i dderbyn medal ar ddiwedd y tymor.

Bydd medal pencampwr yr Uwch Gynghrair yn gamp anferth i Williams, a fydd yn gobeithio am dymor arall o gynnydd flwyddyn nesaf gyda Phencampwriaeth yr Ewros yn agosáu.




## Atebion y Cwis Chwaraeon

1. Los Angeles, UDA
2. West Bromwich Albion – 552 troedfedd
3. 45
4. Chwech
5. "Money"
6. Yr Eidal
7. Video Assistant Referee
8. Gemau Olympaidd yr haf 1976, yn Montreal
9. Wayde van Niekerk
10. Minnehoma

**Blewyn Glas**

cysylltwch â ni

**papurblewynglas@gmail.com**